

Perthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol

Rhan un: safbwynt o Gymru

Mawrth 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddMADY

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddMADY@cynulliad.cymru**

Twitter: **[@SeneddMADY](https://twitter.com/SeneddMADY)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Perthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol

Rhan un: safbwynt o Gymru

Mawrth 2018



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Cytunwyd ar ei gylch gwaith ar 15 Medi 2016 ac mae ar gael yma: www.cynulliad.cymru/SeneddMADY

Cadeirydd y Pwyllgor:



David Rees AC
Llafur Cymru
Aberavon

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Michelle Brown AC
UKIP Cymru
Gogledd Cymru



Suzy Davies AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Jane Hutt AC
Llafur Cymru
Bro Morgannwg



Mark Isherwood AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



Steffan Lewis AC
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Jenny Rathbone AC
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



Jack Sargeant AC
Llafur Cymru
Alun a Glannau Dyfrdwy

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Dawn Bowden AM
Llafur Cymru
Merthyr Tudful a Rhymni

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	7
Argymhellion.....	9
Ein barn ni.....	11
1. Cyflwyniad.....	17
1. 1. Cefndir.....	17
1. 2. Cylch gorchwyl.....	18
1. 3. Casglu tystiolaeth.....	18
1. 4. Cyd-destun cyfredol y trafodaethau.....	18
1. 5. Ein hadroddiad.....	20
2. Mynediad at y Farchnad a’r Undeb Tollau.....	24
2. 1. Perthynas fasnachu Cymru â’r Undeb Ewropeaidd.....	24
Ein barn ni.....	25
2. 2. Rôl safonau a rheoleiddio.....	25
Barn Llywodraeth Cymru.....	27
Ein barn ni.....	27
2. 3. Ffermio, pysgodfeydd a bwyd.....	28
Ein barn ni.....	30
2. 4. Rôl yr Undeb Tollau.....	30
Barn Llywodraeth Cymru.....	33
Ein barn ni.....	33
3. Mewnfudo a rhyddid pobl i symud.....	36
3. 1. Hawliau dinasyddion.....	36
Adroddiad ar y cyd yr Undeb Ewropeaidd a’r Deyrnas Unedig.....	36
Ein barn ni.....	37
3. 2. Dibyniaeth sectoraidd ar ymfudwyr o’r Undeb Ewropeaidd.....	37
Barn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.....	39
Ein barn ni.....	40

4. Parhau i ymwneud ag asiantaethau a rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd	44
4. 1. Cyfranogiad yn asiantaethau'r Undeb Ewropeaidd	44
Ein barn ni	45
4. 2. Parhau i ymwneud ag asiantaethau iechyd	46
Canolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop	46
Ein barn ni	47
Yr Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd	47
Barn Llywodraeth Cymru	48
Ein barn ni	48
4. 3. Mynediad parhaus at raglenni cyllido Ewropeaidd	49
Cyllido ymchwil a datblygu	49
Ein barn ni	50
Cyllido ymchwil meddygol	50
Ein barn ni	52
Erasmus+	52
4. 4. Barn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig	53
Ein barn ni	54
5. Perthynas Cymru â rhwydweithiau a sefydliadau Ewropeaidd yn y dyfodol	58
5. 1. Cyfranogi mewn rhwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol	58
Buddion i'r gymdeithas sifil	59
Parhau i ymwneud â rhwydweithiau	60
Barn Llywodraeth Cymru	61
Ein barn ni	62
Y berthynas ag Iwerddon	63
Barn Llywodraeth Cymru	64
Ein barn ni	64
5. 2. Y berthynas â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol	65
Pwyllgor y Rhanbarthau	66

Ein barn ni 67

Ffurfiâu eraill ar berthynas ddwyochrog rhwng Cymru a'r Undeb

Ewropeaidd..... 67

Ein barn ni 68

Atodiad A - Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar..... 70

Atodiad B - Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig..... 72


Rhagair y Cadeirydd

Mae Cymru bob amser wedi bod yn genedl allblyg sy'n ymgysylltu'n rhyngwladol, ac roedd rhai'n ofni bod penderfyniad y refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd yn troi cefn ar y traddodiad anrhydeddus hwn. Fodd bynnag, fel mae'r adroddiad hwn yn ei amlygu, mae'r ofnau hyn yn ddi-sail. Rydym yn glir ein meddwl, er bod Cymru'n gadael yr Undeb Ewropeaidd yn yr un modd â'r Deyrnas Unedig, nid yw'n gadael Ewrop. Ni ellir cael gwared ar y deugain a phum mlynedd diwethaf o gydweithredu ac integreiddio ar chwarae bach, beth bynnag fydd canlyniad trafodaethau Brexit yn y pen draw. Mae ein hadroddiad yn edrych ar berthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol, ac yn ailddatgan y farn y dylid ystyried Brexit fel adlinio hen berthnasau ynghyd â dechrau rhai newydd.

Cawsom gyfoeth o dystiolaeth am sut gallai perthynas Cymru ag Ewrop weithio yn y dyfodol. Mae'r adroddiad yn nodi'r holl agweddau pwysig ar y berthynas hon, gan gwmpasu masnach, diwylliant, iechyd, y celfyddydau, addysg a mwy. Mae ehangder a dyfnder y dystiolaeth o bob sector – o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector – yn ychwanegu cryn sylwedd at ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad hwn.

Mae'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys pwysigrwydd sicrhau bod perthynas fasnachol hanfodol Cymru â'r Undeb Ewropeaidd yn cael ei chadw, nid ei difrodi, mewn unrhyw berthynas yn y dyfodol. Mae'n amlwg hefyd i ni fod Cymru wedi elwa ar ymwneud â nifer o asiantaethau a rhaglenni, gan gynnwys Horizon 2020, Erasmus+ a'r Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd. Mae'r adroddiad hwn yn dadlau'r achos dros ddod o hyd i atebion i'r cwestiwn a all Cymru chwarae rôl yn y rhain yn y dyfodol, a sut y gall wneud hynny. Yn fwy eang, mae nifer o rwydweithiau a chysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol sydd wedi llunio perthynas Cymru ag Ewrop, ac i'r gwrthwyneb, dros y blynyddoedd, ac rydym o'r farn eu bod yn bwysig. I'r perwyl hwnnw, rydym wedi nodi rhai syniadau ar gyfer cydweithio a datblygu perthynas yn y dyfodol, a byddwn yn edrych tuag at Lywodraeth Cymru i arwain ar y gwaith hwn wrth i ni edrych ymlaen i'r dyfodol.

Yn olaf, mae'n bwysig nodi ein bod ni wedi penderfynu rhannu ein gwaith yn ddwy ran. Mae'r adroddiad rhan un hwn yn cynnwys y "farn o Gymru". Gan ein bod ni'n cydnabod bod barn ein cyfeillion a'n cydweithwyr yn Ewrop mor bwysig o ran y canlyniad terfynol ynghylch y berthynas â Chymru yn y dyfodol, rydym yn awr yn bwriadu dechrau deialog ag eraill i lywio ail gam y gwaith ar y farn o Ewrop.

A handwritten signature in black ink on a light yellow background. The signature reads "David F. Rees." in a cursive, slightly slanted script.

David Rees AC

Cadeirydd, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn trafod gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod mynediad ffafriol at y farchnad, yn rhydd o rwystrau tariff a rhwystrau di-dariff, yn cael ei flaenoriaethu yn y trafodaethau sydd ar ddod ar berthynas y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol..... Tudalen 28

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ei thrafodaethau â Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn galw arni i sicrhau bod buddiannau'r diwydiannau ffermio, pysgota a bwyd yn cael eu diogelu yn ystod y broses ymadael. Tudalen 30

Argymhelliad 3. I'r perwyl hwnnw, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gasglu tystiolaeth ar ddibyniaeth y sectorau hyn ar farchnad yr Undeb Ewropeaidd ac i gyflwyno'r canfyddiadau hyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn cryfhau ei galwadau. Tudalen 30

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflwyno cynigion credadwy o ran trefniadau tollau'r Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol cyn gynted ag y bo modd..... Tudalen 33

Argymhelliad 5. Wrth ymgymryd â gwaith i baratoi ar gyfer senario 'dim bargaen', rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yr effaith y gallai trefniadau tollau eraill ei chael ar Gymru, a pha gamau y gallai fod angen eu cymryd i baratoi ar gyfer y rhain..... Tudalen 34

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio eglurder gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar yr amserlenni ar gyfer symud at system fewnfudo yn y dyfodol cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi sicrwydd y mae ei angen yn fawr ar fusnesau a chyrrff y sector cyhoeddus ar y materion recriwtio y gallant eu hwynebu yn y dyfodol..... Tudalen 42

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhestr o asiantaethau Ewropeaidd y mae wedi eu nodi fel rhai pwysig i Gymru o ran cyfranogiad parhaus ar ôl Brexit. Tudalen 47

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda chyrrff y GIG, rhanddeiliaid iechyd y cyhoedd a sefydliadau iechyd yng Nghymru i nodi cysylltiadau cyfredol â'r asiantaethau a'r rhwydweithiau hyn i awgrymu dewisiadau posibl o ran sut gallai cydweithio barhau ar ôl Brexit. Tudalen 49

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn parhau i gymryd rhan yng Nghanolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop, ac Asiantaeth Feddyginiaethau Ewrop, ar ôl Brexit..... Tudalen 50

Argymhelliad 10. Os na chytunir ar Horizon 2020 nac unrhyw raglen olynol rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd y gallai ddarparu cymorth parhaus i sefydliadau Cymru gydweithio â chymheiriaid Ewropeaidd ar ôl Brexit.
..... Tudalen 52

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio'r potensial ar gyfer rhaglen symudedd myfyrwyr rhyngwladol newydd ar ôl Brexit, ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn chwe mis..... Tudalen 57

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mapio'r holl rwydweithiau yn yr Undeb Ewropeaidd sy'n bodoli'n barod, ar draws pob sector, lle mae sefydliadau Cymru yn chwarae rhan. Dylai canlyniadau'r ymarfer mapio hwn gael eu cyhoeddi erbyn mis Mehefin 2018..... Tudalen 64

Argymhelliad 13. Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau'r ymarfer mapio hwn, dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid ar bwysigrwydd y rhwydweithiau gwahanol hyn, eu buddion i Gymru a pha rwydweithiau y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer mynediad ar ôl Brexit. Dylid cwblhau'r ymgynghoriad erbyn hydref 2018..... Tudalen 65

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, amlinellu cynlluniau ar gyfer buddsoddi yng nghyfranogiad Cymru yn y rhwydweithiau hyn, ac ystyried y cyfleoedd a'r goblygiadau cyllido i gymdeithas ddinesig Cymru er mwyn parhau i gydweithio â phartneriaid mewn rhwydweithiau allweddol..... Tudalen 65

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, yn nodi'r cyflwr terfynol y mae'n ei ragweld o ran perthynas Cymru â rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd yn y dyfodol, a'i chyfranogiad ynddynt (yn enwedig y rhai sy'n cynnwys Iwerddon), ar ôl Brexit..... Tudalen 67

Argymhelliad 16. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei ymateb i'r adroddiad hwn pa drafodaethau y mae wedi eu cael ar berthynas Cymru â Phwyllgor y Rhanbarthau yn y dyfodol ar ôl Brexit, a sut mae'r trafodaethau hynny'n mynd rhagddynt..... Tudalen 69

Argymhelliad 17. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio'r cyfleoedd i sefydliadau llywodraethol ac anlywodraethol yng Nghymru ymgysylltu'n effeithiol â'r Undeb Ewropeaidd a'i sefydliadau ar ôl Brexit.
Tudalen 71

Argymhelliad 18. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru alw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddiogelu'r hawliau dynol a safonau cydraddoldeb y mae dinasyddion Cymru wedi elwa arnynt drwy fod yn ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd.
Tudalen 71

EIN BARN NI

Mae'n rhaid i'r berthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol flaenoriaethu masnach ddirwystr, yn rhydd o rwystrau tariff a rhwystrau nad ydynt yn ymwneud â thariffau ar ôl Brexit..... Tudalen 25

Rydym yn nodi'r berthynas wrthdro rhwng gwahaniaethau rheoleiddio a lefel y mynediad at farchnad yr Undeb Ewropeaidd fydd ar gael i'r Deyrnas Unedig ar ôl Brexit..... Tudalen 27

O'r dystiolaeth a gafwyd, nid ydym wedi ein darbwylllo ynghylch gwerth gwahaniaethau rheoleiddiol ar ôl Brexit, ac rydym yn nodi bod y dystiolaeth yn rhoi blaenoriaeth helaeth i gynnal safonau rheoleiddio cyfatebol er mwyn sicrhau mynediad ffafriol at y farchnad dros wahaniaethau rheoleiddio ar ôl Brexit..... Tudalen 28

Rydym yn nodi'r ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig drwy Gydbwyllgor y Gweinidogion ar Drafodaethau'r Undeb Ewropeaidd (JMC(EN)) i nodi mecanwaith i alluogi'r llywodraethau datganoledig i fod yn rhan o'r trafodaethau ar y fframwaith ar gyfer partneriaeth â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad hwn ac yn credu ei bod yn hanfodol o ran sicrhau bod pryderon a diddordebau holl wledydd y Deyrnas Unedig yn cael eu hadlewyrchu yn y sefyllfa negodi derfynol. Rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyhoeddi manylion y cynnig hwn yn fuan..... Tudalen 28

Rydym yn nodi fod y Prif Weinidog wedi datgan yn ei haraith ddiweddar y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ceisio cytundeb masnach â'r Undeb Ewropeaidd a threfniant tollau posibl. Ni ddylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig fod o dan unrhyw gamargraff ynghylch y safbwyntiau a fynegwyd i ni ynghylch canlyniadau economaidd anffafriol posibl i Gymru peidio â sicrhau mynediad at y farchnad yn rhydd o rwystrau tariff a rhwystrau di-dariff..... Tudalen 28

Rydym yn disgwyl i Weinidogion y Deyrnas Unedig ystyried y goblygiadau ar gyfer pob rhan gyfansoddol o'r Deyrnas Unedig, a byddwn yn parhau i'w gwahodd i ymddangos ger ein bron fel Pwyllgor i esbonio eu sefyllfa negodi a sut mae barn rhanddeiliaid Cymru wedi cael ei hystyried.Tudalen 28

Rydym yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i flaenoriaethu mynediad ffafriol at y farchnad, yn rhydd o rwystrau tariff a rhwystrau di-dariff, yn ei thrafodaethau sydd ar ddod gyda'r Undeb Ewropeaidd ar y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol.Tudalen 28

Rydym yn cydnabod yr heriau penodol sy'n wynebu diwydiannau sy'n masnachu mewn nwyddau mwy pydradwy - fel ffermio, pysgota a bwyd - drwy godi rhwystrau di-dariff newydd ar ôl Brexit. Yn benodol, byddai rhwystrau di-dariff newydd fel archwiliadau iechyd planhigion ac anifeiliaid yn fygythiad i allforio parhaus cynnyrch amaethyddol, pysgota a bwyd Cymru i'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n hanfodol i Gymru bod mynediad ffafriol at y farchnad, heb rwystrau tariff a rhwystrau di-dariff, yn cael ei sicrhau ar ôl Brexit. Rydym yn nodi ymrwymiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gynnal y lefelau cyfredol o gyllid ar gyfer cymorth i ffermydd yn y Deyrnas Unedig tan 2022.Tudalen 30

Rydym yn nodi, er bod aros yn yr Undeb Tollau yn cyfyngu ar allu'r Deyrnas Unedig i gytuno ar gytundebau masnach newydd ar ôl Brexit, nid yw'n eithrio'r posibilrwydd hwnnw'n gyfan gwbl. Rydym hefyd yn nodi'r dystiolaeth sy'n nodi y gallai parhau mewn rhyw fath o undeb tollau â'r Undeb Ewropeaidd sicrhau bod y risg o oedi ar y ffin yn cael ei leihau. At hynny, rydym yn nodi y byddai cynnal trefniant tollau â'r Undeb Ewropeaidd yn cynyddu'r rhwyddineb y gall y Deyrnas Unedig etifeddu'r 65 o Gytundebau Masnach Rydd sydd gan yr Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit.Tudalen 33

Rydym hefyd yn nodi y gallai trefniant tollau newydd â'r Undeb Ewropeaidd, sy'n adlewyrchu'r trefniadau presennol yn fras, helpu i leihau'r risgiau o oedi yn sgil tollau ar ffiniau ac mewn porthladdoedd.Tudalen 33

Rydym yn nodi pryderon rhanddeiliaid y gall ansicrwydd fod yn cael effaith ar nifer y bobl o wledydd yr Undeb Ewropeaidd a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd sy'n gadael y Deyrnas Unedig, a phryderon penodol y sector gofal iechyd yn hynny o beth.Tudalen 39

Rydym yn croesawu'r cytundeb Cam Un, a'r cytundeb ar bontio, o ran hawliau dinasyddion, a gobeithiwn ei fod yn rhoi rhagor o sicrwydd i ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn y Deyrnas Unedig a hefyd i ddinasyddion y Deyrnas Unedig sy'n byw ac yn gweithio yn yr Undeb Ewropeaidd. Rydym yn nodi bod rhai

materion mewn perthynas â hawliau dinasyddion yn parhau i fod yn amodol ar y trafodaethau terfynol, ac rydym yn gobeithio y bydd y trafodaethau hyn yn cael eu cwblhau cyn gynted â phosibl. Tudalen 39

Rydym yn nodi ymhellach y pwyslais a roddir ar hawliau dinasyddion gan Dasglu Brexit Senedd Ewrop, a chytunwn fod cytundeb ar hyn o fudd i bawb. Tudalen 39

Rydym yn derbyn y pryderon y tynnodd rhanddeiliaid ein sylw atynt fod rhai sectorau yn fwy agored i effeithiau anffafriol colli gweithwyr mudol o'r Undeb Ewropeaidd nag eraill, a bod risgiau'n gysylltiedig â therfyn sydyn ar ryddid i symud. Mae'n amlwg i ni fod yn rhaid rheoli'r newid i system fewnfudo newydd yn ofalus er mwyn helpu i liniaru'r risgiau i economi Cymru. Rydym yn gobeithio y bydd y cytundeb ar y cyfnod pontio yn rhoi rhagor o amser i sefydliadau a busnesau Cymru baratoi ar gyfer newidiadau yn y dyfodol. Tudalen 42

Er ein bod yn croesawu sylwadau'r Prif Weinidog ar hwyluso recriwtio gweithwyr o'r Undeb Ewropeaidd ac i'r gwrthwyneb ar ôl Brexit, rydym yn siomedig bod Bil Mewnfudo arfaethedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ei ohirio tan fis Rhagfyr 2018. Tudalen 42

Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth y Prif Weinidog bod nifer o asiantaethau lle byddai cyfranogiad parhaus o fudd i'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig gyhoeddi rhestr cyn gynted â phosibl o'r holl asiantaethau Ewropeaidd y mae'n dymuno parhau i ymwneud â hwy. Mae hefyd yn bwysig ceisio eglurder cynnar ynghylch a yw'r Undeb Ewropeaidd yn barod i gynnig aelodaeth gyswllt i'r Deyrnas Unedig ar gyfer y cyrff hyn. Os nad yw, mae angen i Lywodraeth y Deyrnas Unedig weithio ar frys â'r llywodraethau datganoledig a'r rhanddeiliaid i sefydlu sut bydd unrhyw fwlch llywodraethu a grëir o ganlyniad i golli mynediad at y cyrff hyn yn cael ei lenwi. Tudalen 47

Gan gydnabod na all Llywodraeth Cymru, ynndi nac ohoni hi ei hun, negodi i gynnal aelodaeth o'r asiantaethau hyn, mae'n bwysig ei bod yn ceisio ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru a sefydliadau yng Nghymru gynnal cysylltiadau â'r asiantaethau hyn ar ôl Brexit. Tudalen 47

Rydym o'r farn y byddai aelodaeth barhaus y Deyrnas Unedig o asiantaethau sy'n ymwneud â maes atal afiechydon ac iechyd y cyhoedd yn Ewrop, a'i chyfranogiad ynddynt, yn ddiamwys yn fuddiol i'r holl bartïon dan sylw. Tudalen 49

Rydym yn cytuno â'r safbwyntiau a fynegwyd wrthym gan randdeiliaid y dylai aelodaeth barhaus o'r Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd fod yn flaenoriaeth i Gymru, ac i'r Deyrnas Unedig, ar ôl Brexit..... Tudalen 50

Rydym yn cydnabod bod cyllid Ewropeaidd, yn bennaf drwy raglen Horizon 2020, wedi darparu cyfran sylweddol o fuddsoddiad mewn ymchwil a datblygu.
..... Tudalen 52

Rydym yn croesawu'r cyfeiriadau a wneir at gydweithrediad posibl mewn meysydd ymchwil ac arloesi gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd, ac rydym yn credu y dylai hyn fod yn flaenoriaeth allweddol yn y trafodaethau..... Tudalen 52

Rydym yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn parhau i fod yn rhan o Horizon 2020 ac unrhyw raglen olynol ar ôl Brexit..... Tudalen 52

Rydym yn nodi'r pryderon a godwyd gyda ni y byddai colli mynediad at raglenni sy'n cefnogi cydweithredu ar ymchwil ym maes treialon clinigol ac ymchwil iechyd yn gam yn ôl i ddinasyddion y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd fel ei gilydd, ac y gallai arwain at ganlyniadau gwaeth i gleifion yn y pen draw.
..... Tudalen 54

Rydym o'r farn bod rôl Erasmus+ o ran gwella profiad myfyrwyr, a meithrin rhagor o gysylltiadau rhwng Cymru ac Ewrop, yn rhywbeth cadarnhaol i'r holl bartion dan sylw. At hynny, rydym yn nodi o'r dystiolaeth y byddai llawer o randdeiliaid yn hoffi gweld mynediad at y cynllun hwn yn cael ei gadw ar ôl Brexit. Rydym hefyd yn nodi bod Erasmus+ yn agored i rai nad ydynt yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd, ac felly rydym yn gobeithio y gellid negodi cyfranogiad parhaus gyda rhwyddineb cymharol..... Tudalen 56

Rydym yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod cyfranogiad yn Erasmus+ a chynlluniau cydweithredu eraill ynghylch symudedd addysgol a chydweithredu rhwng myfyrwyr (fel Cedefop a'r gweithrediadau Marie Skłodowska-Curie) yn parhau ar ôl Brexit. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru amlinellu, mewn ymateb i'r adroddiad hwn, sut mae trafodaethau ar barhau i fod yn than o Erasmus+ yn datblygu..... Tudalen 56

Gallai uchelgeisiau Cymru o ran cydweithrediad rhyngwladol a symudedd myfyrwyr ymestyn ymhellach. O'r herwydd, rydym o'r farn fod y syniad o greu rhaglen symudedd allblyg newydd ac ynghylch symudedd i fyfyrwyr Cymru, yn teilyngu cael ei archwilio ymhellach..... Tudalen 56

Rydym yn cydnabod rôl unigryw a gwerthfawr ymwneud â rhwydweithiau Ewropeaidd o ran dysgu a chydweithio ar bolisiâu ar draws pob sector. Rydym yn falch o effaith gadarnhaol, i'r ddau gyfeiriad, ymgysylltiad o'r fath yn y gorffennol. Rydym yn gobeithio gweld y cysylltiadau hyn yn tyfu o nerth i nerth yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod cyfranogiad mewn llawer o'r rhwydweithiau hyn yn y gorffennol wedi ei seilio'n uniongyrchol ar y ffaith bod prosiectau a rhaglenni a gyllidir gan yr Undeb Ewropeaidd ar gael, ac o ganlyniad i Brexit, y gallai Cymru fod â llai o rôl yn llawer o'r rhwydweithiau hyn yn y dyfodol. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru, cymdeithas sifil ac eraill gymryd camau i liniaru'r risgiau hyn o leihau'r rôl lle bo modd.....Tudalen 64

Rydym yn nodi'r rôl bwysig a neilltuwyd yn natganiad CPMR Caerdydd, a chan Lywodraeth Cymru, i ddatblygu perthynas nid yn unig drwy rwydweithiau ond yn uniongyrchol â gwledydd, rhanbarthau a dinasoedd unigol yn Ewrop. Drwy ein gwaith ar y trafodaethau hyd yn hyn, cawsom drafodaethau adeiladol gyda chynrychiolwyr llawer o ranbarthau Ewrop sy'n rhannu pryderon tebyg i Gymru. Rydym yn cydnabod y rôl bwysig y bydd y cysylltiadau hyn yn ei chwarae yn y dyfodol, a byddwn yn dychwelyd i ystyried y mater hwn ymhellach yn Rhan Dau o'n hadroddiad.....Tudalen 64

Rydym wedi tynnu sylw'n barod at bwysigrwydd perthynas Cymru â'n cymydog agosaf yn yr Undeb Ewropeaidd, sef Iwerddon. Yn ystod ein hymchwiliad i oblygiadau Brexit ar gyfer porthladdoedd Cymru, fe wnaethom bwysleisio'r berthynas fasnachu bwysig: mae 70 y cant o nwyddau cludo Iwerddon yn mynd drwy borthladdoedd Cymru.....Tudalen 66

Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu'r berthynas ddwyochrog bwysig rhwng Cymru, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon i sicrhau ei bod yn parhau i gryfhau a thyfu ar ôl Brexit.....Tudalen 66

Rydym yn cydnabod y rôl bwysig a buddiol y mae aelodaeth Cymru o Bwyllgor y Rhanbarthau wedi ei chwarae yn y gorffennol. Rydym hefyd yn nodi'r galwadau ar i Gymru barhau i gynnal perthynas â'r Pwyllgor ar ôl Brexit.....Tudalen 69

Ni ddylai Brexit olygu troi cefn ar draddodiad balch Cymru fel cenedl allblyg sy'n ymgysylltu'n rhyngwladol, ac rydym yn nodi y bydd perthynas Cymru gydag Ewrop yn parhau i fod yn bwysig ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.....Tudalen 70

Mae'n bwysig bod y berthynas yn y dyfodol yn amddiffyn ac yn diogelu safonau cydraddoldeb a hawliau dynol. Rydym yn cefnogi parhad yr hawliau sydd yn y Siarter Hawliau Sylfaenol yn y Deyrnas Unedig ar ôl Brexit ac mewn unrhyw berthynas fasnachol yn y dyfodol rhwng y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a phartneriaid eraill yn y dyfodol.....Tudalen 70

Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru archwilio parodrwydd yr Undeb Ewropeaidd a'i sefydliadau i ymgysylltu â sefydliadau'r Llywodraeth a sefydliadau anllywodraethol yng Nghymru ar ôl Brexit. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ynghylch hynny erbyn mis Rhagfyr 2018.....Tudalen 71

Y mae hefyd yn hollbwysig sicrhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn cadw statws achrediad a diplomyddol cyfatebol â swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig (beth bynnag fydd y trefniadau hynny) fel rhan o unrhyw gytundeb ar berthynas y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol.....Tudalen 71

1. Cyflwyniad

Cyda thrafodaethau Brexit nawr yn troi at drafodaethau rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ynghylch y fframwaith ar gyfer y berthynas yn y dyfodol, cychwynasom ymchwiliad i sut dylai perthynas Cymru ag Ewrop fod yn y dyfodol.

1.1. Cefndir

1. Yn union ar ôl refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, rhoddodd cam cyntaf ein gwaith sylw i oblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd i Gymru. Bu i ymchwiliadau dilynol i **ddyfodol polisi rhanbarthol**, a **goblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd i borthladdoedd Cymru**, a gwaith ar **sut mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit**, ddatblygu rhai o'r themâu mwy ymarferol a godwyd yn ystod ein hymchwiliad cyntaf. Rydym wedi dilyn cynnydd y trafodaethau hyd yma yn agos. Rydym hefyd wedi craffu ar weinidogion Cymru a'r Deyrnas Unedig, wedi gweithio â chydweithwyr mewn seneddau eraill yn y Deyrnas Unedig ac wedi ymgysylltu â chydweithwyr yn Senedd Ewrop, cyrff eraill yr Undeb Ewropeaidd a sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd i ystyried sut bydd Brexit yn effeithio ar ddinasyddion a busnesau Cymru. Mae'r corff hwn o waith wedi rhoi dealltwriaeth dda i ni o'r hyn y gallai Brexit ei olygu i Gymru a'r Deyrnas Unedig. O fod wedi deall beth allai ei olygu, penderfynasom ganolbwyntio ar yr hyn y gallai Cymru fod ei angen o'r berthynas yn y dyfodol.

2. Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru Bapur Gwyn ar y cyd, **Diogelu Dyfodol Cymru**, sy'n amlinellu eu safbwynt ar ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ar sawl achlysur, wedi mynegi ei safbwynt ar y berthynas yr hoffai ei gweld rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ar ôl gadael.

3. Yng **nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ar 14 Rhagfyr 2017**, cytunodd arweinwyr yr Undeb Ewropeaidd (y 27 gwladwriaeth) bod cynnydd digonol wedi ei gyflawni yng ngham cyntaf trafodaethau Brexit. Ar sail hynny, maent wedi mabwysiadu canllawiau drafft i symud at ail gam y trafodaethau, lle mae'r naill ochr a'r llall wedi dechrau trafodaethau am gyfnod pontio a'r fframwaith ar gyfer y berthynas yn y dyfodol.

4. Yng ngoleuni'r datblygiadau hyn, penderfynom gynnal ymchwiliad i berthynas Cymru â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol.

1. 2. Cylch gorchwyl

5. Ein hamcanion ar gyfer yr ymchwiliad oedd:

- nodi'r agweddau mwyaf hanfodol ar berthynas y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol o safbwynt Cymru;
- sicrhau bod y materion sydd bwysicaf i Gymru yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y trafodaethau; a
- nodi cyfleoedd i barhau i ymgysylltu â'r Undeb Ewropeaidd a'i sefydliadau ar ôl Brexit.

1. 3. Casglu tystiolaeth

6. Er mwyn llywio ein hymchwiliad, cynhaliom ymgynghoriad cyhoeddus a chafwyd **33 cyflwyniad ysgrifenedig** o amrywiaeth o sectorau gan gynnwys busnes a diwydiant, addysg, ffermio, yr amgylchedd, y byd academaidd, llywodraeth leol, iechyd, undebau llafur, y trydydd sector, diwylliant, trafnidiaeth ac adeiladu. Roedd y dystiolaeth a gawsom yn fanwl, yn awdurdodol ac yn adlewyrchu'r pwysigrwydd y mae rhanddeiliaid Cymru yn ei roi ar berthynas Cymru â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol. Yn ogystal, fe wnaethom gynnal cynhadledd rhanddeiliaid gyda chynrychiolwyr o 28 o wahanol sefydliadau. Cafodd ein gwaith ei gyfoethogi'n sylweddol yn sgil ein hymweliadau ag Aston Martin yn Sain Tathan a Toyota yng Nglannau Dyfrdwy, ac rydym yn ddiolchgar i'r sefydliadau hynny am y croeso cynnes a gawsom. Yn olaf, cawsom dystiolaeth gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, sy'n gyfrifol am drafodaethau Brexit yn Llywodraeth Cymru.

1. 4. Cyd-destun cyfredol y trafodaethau

7. Mae statws y trafodaethau'n parhau'n hynod o hylif. Pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, roedd prif drafodwr yr Undeb Ewropeaidd, Michel Barnier, ac Ysgrifennydd Gwladol y Deyrnas Unedig ar Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, David Davis, newydd gyrraedd cytundeb gwleidyddol ar y cyfnod pontio, a disgwyllir i'r Cyngor Ewropeaidd ystyried y cytundeb hwn a'i ganllawiau ar fframwaith ar gyfer partneriaeth yn y dyfodol ar 23 Mawrth. Mae'r Pwyllgor yn dilyn y datblygiadau hyn yn agos a bydd yn parhau i fireinio a myfyrio ar ei safbwynt mewn ymateb i'r digwyddiadau hyn yn ei adroddiad rhan dau.

- 8.** Ar 2 Mawrth 2018, yn y Mansion House yn Ninas Llundain, **traddododd y Prif Weinidog anerchiad** ar bartneriaeth economaidd y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol, lle nododd bum prawf ar gyfer y berthynas.¹ Ailadroddodd y Prif Weinidog farn Llywodraeth y Deyrnas Unedig y byddai angen trefniant pwrpasol â'r Undeb Ewropeaidd, gyda chytundebau sydd hefyd yn cwmpasu meysydd fel cydweithredu ar ddiogelwch, diogelu data, ymchwil ac arloesi, ac awyrennau, yn ychwanegol at y meysydd a lywodraethir gan gytundeb masnach rydd yn draddodiadol. Nododd y Prif Weinidog y byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ceisio aelodaeth gyswllt o rai o asiantaethau'r Undeb Ewropeaidd, ac ailadroddodd farn Llywodraeth y Deyrnas Unedig y dylai'r berthynas yn y dyfodol gael ei rheoli gan fecanwaith cyflafareddu annibynnol newydd.
- 9.** Cyhoeddwyd canllawiau trafod drafft gan y Cyngor Ewropeaidd ar 7 Mawrth 2018. Yn y canllawiau drafft, rydym yn nodi barn Llywydd y Cyngor, Donald Tusk, mai'r unig ddewis ar gyfer y Deyrnas Unedig y tu allan i'r Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau yw Cytundeb Masnach Rydd â'r Undeb Ewropeaidd. Rydym yn croesawu'r awgrym yn y canllawiau y gellid sicrhau mynediad di-doll rhwng marchnadoedd yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig mewn cytundeb yn y dyfodol. Rydym yn nodi gyda diddordeb hefyd yr awgrym yn y canllawiau drafft, yn amodol ar gwrdd ag amodau eraill, y gallai'r Undeb Ewropeaidd geisio dod i gytundeb â'r Deyrnas Unedig ar hawliau eiddo deallusol, hedfan a mynediad at raglenni ymchwil, arloesi, addysg a diwylliant yr Undeb Ewropeaidd yn seiliedig ar yr amodau ehangach y cytunwyd arnynt ar gyfer cyfranogiad trydydd parti yn y rhaglenni hyn.
- 10.** Mabwysiadodd Senedd Ewrop ei Gynnig ar y fframwaith ar gyfer partneriaeth yn y dyfodol ar 13 Mawrth. Rydym yn cydnabod y rôl bwysig y mae Senedd Ewrop yn ei chwarae yn y prosesau negodi. Rydym yn nodi gyda diddordeb y safbwyntiau a fynegwyd gan y Senedd, gan gynnwys ei barn ar ddinasyddion, mynediad at y farchnad, rheoliadau a safonau a'r potensial i gytuno ar gydweithrediad parhaus mewn meysydd fel ymchwil ac arloesi.
- 11.** Mae llawer o'r meysydd a nodwyd gan y Prif Weinidog, y Cyngor Ewropeaidd a Senedd Ewrop wedi eu cwmpasu yn yr adroddiad hwn ac yn ei gasgliadau. Fodd bynnag, nid yw rhai meysydd allweddol, fel llywodraethu'r berthynas rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol, yn cael eu cwmpasu yn y

¹ Llywodraeth EM, **PM's speech on our future economic partnership with the European Union** - 2 Mawrth 2018

dystiolaeth a gawsom hyd yn hyn, ond bwriadwn fyfyrion ymhellach ar hyn yn Rhan 2 ein hadroddiad.

1. 5. Ein hadroddiad

12. O ystyried pwysigrwydd perthynas Cymru â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol, a'r amserlen ar gyfer y trafodaethau, penderfynasom ymgymryd â'r ymchwiliad hwn mewn dwy ran. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys ein canfyddiadau Rhan Un fel rhan o'r ymchwiliad, ac mae'n canolbwyntio ar y farn o Gymru o ran yr elfennau allweddol a ddylai fod yn rhan o berthynas rhwng Cymru a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol. Rydym yn cydnabod bod yr hyn rydym ni fel Pwyllgor, dinasyddion, sector cyhoeddus a busnesau Cymru ei eisiau o berthynas yn y dyfodol hefyd yn gorfod ystyried barn a blaenoriaethau'r Undeb Ewropeaidd. O ganlyniad, bydd ein hadroddiad Rhan Dau yn canolbwyntio ar "y farn o Ewrop" a sut gall blaenoriaethau Cymru ystyried y rhain.





Pennod 2:

Mynediad at y Farchnad a'r Undeb Tollau

Mae ein pennod gyntaf yn edrych ar yr un maes pwysicaf o ran y berthynas rhwng Cymru a'r Undeb Ewropeaidd - masnach. Yn benodol, rydym yn edrych ar fynediad at y farchnad sengl Ewropeaidd a'r cwestiynau sy'n ymwneud â pherthynas dollau'r Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol.

2. Mynediad at y Farchnad a'r Undeb Tollau

Mae ein pennod gyntaf yn edrych ar yr un maes pwysicaf o ran y berthynas rhwng Cymru a'r Undeb Ewropeaidd – masnach. Yn benodol, rydym yn edrych ar fynediad at y farchnad sengl Ewropeaidd a'r cwestiynau sy'n ymwneud â pherthynas dollau'r Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol.

2.1. Perthynas fasnachu Cymru â'r Undeb Ewropeaidd

13. Dengys ffigurau gan Lywodraeth Cymru fod Cymru wedi allforio gwerth £14.6 biliwn o nwyddau yn 2016, ac aeth 61 y cant o hynny i'r Undeb Ewropeaidd.² Dywedodd nifer fawr o randdeiliaid wrthym fod fynediad parhaus at Farchnad Sengl yr Undeb Ewropeaidd ar yr un telerau, neu delerau mor debyg â phosibl, yn flaenoriaeth. Yn benodol, tynnwyd sylw helaeth yn y dystiolaeth ysgrifenedig at bwysigrwydd masnachu dirwysr a'r angen i osgoi rhwystrau tariff a rhwystrau nad ydynt yn ymwneud â thariffau.³ Roedd Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru (BMA Cymru), Cymdeithas Pysgotwyr Cymru, Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU Cymru) a Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru (FSB Cymru) hefyd yn cefnogi'r farn hon yn ystod y gynhadledd rhanddeiliaid.

14. Dywedodd Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain (ABPI) a BMA Cymru fod sicrhau masnach ddirwysr ac osgoi rhwystrau tariff a rhwystrau nad ydynt yn ymwneud â thariffau yn flaenoriaeth i'r marchnadoedd fferyllol, dyfeisiau meddygol a meddyginiaethau oherwydd bod llawer o nwyddau yn dibynnu ar gael eu danfon mewn pryd.⁴ Mynegodd y ddau sefydliad bryderon ynghylch sut

² Llywodraeth Cymru, "**Y Polisi Masnach: Materion Cymru**" – 2 Chwefror 2018

³ **Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Ysgafn Prydain: Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain (ABPI), Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLC), Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) Cymru, Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA) Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Defaid Cymru**, Aston Martin – crynodeb rapporteur, **Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru**.

⁴ **FRL03 Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain**; Cofnod y Trafodion, **paragraff 120 - 121** – 29 Ionawr 2018

gallai rhwystrau i fasnachu effeithio'n negyddol ar y cyflenwadau sydd ar gael i GIG Cymru.⁵

15. Yn ystod y gynhadledd rhanddeiliaid, dywedodd Ben Cottam o FSB Cymru wrthym fod mynediad dirwystr at y Farchnad Sengl yn “anghymesur o bwysig” o ran allforion i fusnesau llai o faint.⁶

EIN BARN NI

Mae'n rhaid i'r berthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol flaenoriaethu masnach ddirwystr, yn rhydd o rwystrau tariff a rhwystrau nad ydynt yn ymwneud â thariffau ar ôl Brexit.

2. 2. Rôl safonau a rheoleiddio

16. Roedd llawer o randdeiliaid, gan gynnwys ABPI, Cyswllt Amgylchedd Cymru, Conffederasiwn GIG Cymru, Sefydliad y Peirianwyr Sifil, y Ffederasiwn Bwyd a Diod (FDF) a Chymdeithas Diodydd Ysgafn Prydain, Aston Martin a Toyota, yn galw am alinio neu gysoni rheoleiddio safonau yn barhaus ar ôl Brexit.⁷ Dadl y sefydliadau hyn oedd y byddai'r angen i gwmnïau gydymffurfio ag un set o safonau i werthu yn y Deyrnas Unedig, a set wahanol o safonau i werthu i'r Undeb Ewropeaidd, yn cynyddu costau'r cwmni.

17. Dywedodd rhanddeiliaid yn y sector moduro wrthym, yn ystod ein hymweliadau ag Aston Martin a Toyota, na ddylai'r Deyrnas Unedig geisio cyflwyno cyfundrefn safonau yn y Deyrnas Unedig yn unig ar ôl Brexit.⁸

18. Amlygodd ABPI bryderon tebyg ynghylch yr angen i osgoi un drefn reoleiddiol annibynnol yn y Deyrnas Unedig. Dywedasant wrthym y gallai hyn beri sgil effeithiau o ran mynediad at feddyginiaethau newydd yn y Deyrnas Unedig:

“A standalone UK medicines regulatory system, with inherent duplication of processes, increased costs and divergence of standards will lead to increased considerable delay or no regulatory submission to develop new medicines in the UK. For global companies, the UK

⁵ **FRL03 Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain**, Cofnod y Trafodion, **paragraff 121** – 29 Ionawr 2018

⁶ Cofnod y Trafodion, **paragraff 81** – 29 Ionawr 2018

⁷ **Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain, Cyswllt Amgylchedd Cymru, Conffederasiwn GIG Cymru, Sefydliad y Peirianwyr Sifil, Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Ysgafn Prydain**, Aston Martin a Toyota – crynodeb rapporteur

⁸ Crynodeb o'r trafodaethau rapporteur

market – 3% of global pharmaceutical sales – is not sufficiently large to justify significant additional costs. There is a risk that this would lead to the UK becoming a second priority market for new products.”⁹

19. Pwysleisiodd y Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Ysgafn Prydain yr angen am sicrwydd a chydabyddiaeth o’r safonau gan y naill ochr a’r llall. Dywedasant wrthym:

“The UK and EU negotiating teams must swiftly agree practical solutions which provide certainty for businesses around the future of the seamless and highly valuable market in food and drink that exists between Great Britain, Northern Ireland and the Republic of Ireland. Agreement on mutual recognition of product standards and regulations will be crucial to avoiding burdensome health or veterinary checks.”¹⁰

20. Dywedodd y Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Ysgafn Prydain wrth y Pwyllgor hefyd bod cadw safonau’r Undeb Ewropeaidd ar gyfer cynnyrch hefyd yn bwysig i gynnal hyder defnyddwyr y Deyrnas Unedig. Nododd Confederasiwn GIG Cymru a Choleg Nyrso Brenhinol Cymru yn eu tystiolaeth fod gweithwyr meddygol proffesiynol Cymru a chleifion wedi elwa ar safonau lechyd a Diogelwch yr Undeb Ewropeaidd.

21. Dadleuodd y BMA y bydd sicrhau aliniad mewn meysydd fel rheoleiddio labordai, safonau ymchwil a threialon clinigol yn bwysig er mwyn sicrhau y gall sefydliadau’r Deyrnas Unedig barhau i gydweithio â chymheiriaid yn Ewrop ar ôl Brexit.

22. Cafwyd rhestr fanwl gan Faes Awyr Caerdydd ac ABPI o gyfundrefnau a safonau rheoleiddio’r Undeb Ewropeaidd y mae’r Deyrnas Unedig yn cydymffurfio â hwy ar hyn o bryd, a dywedasant na fyddent am weld gwyro oddi wrth y rhain yn y dyfodol. Roeddent hefyd yn nodi’r effeithiau andwyol posibl y gallai gwyro oddi wrth y rheoliadau hyn eu cael ar fynediad at y farchnad.¹¹ Galwodd Maes Awyr Caerdydd hefyd am barhad dros 250 o reoliadau a chyfarwyddebau’r Undeb Ewropeaidd sy’n galluogi’r Deyrnas Unedig i gymryd rhan yn Asiantaeth Diogelwch Hedfan Ewrop.¹²

⁹ **FRL03 Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain**

¹⁰ **FRL22 Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Ysgafn Prydain**

¹¹ **FRL29 Maes Awyr Caerdydd; FRL03 Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain**

¹² **FRL29 Maes Awyr Caerdydd**

23. Galwodd Cymdeithas Milfeddygon Prydain am barhad system cymeradwyo meddyginiaethau milfeddygol yr Undeb Ewropeaidd, gan y byddai hyn yn sicrhau diogelwch ac ansawdd ar gyfer y proffesiwn ac ar gyfer anifeiliaid. Ar ben hynny, dywed y byddai parhau i fod yn rhan o system bresennol yr Undeb Ewropeaidd yn fwy effeithlon.¹³

24. Yn ei chyflwyniad, tynnodd Dr Victoria Jenkins sylw at y ffaith bod Senedd Ewrop wedi datgan na fyddai'n cefnogi cytundeb masnach a fyddai'n arwain at ostwng safonau amgylcheddol yn y Deyrnas Unedig.¹⁴

25. Amlygodd Dr Ludivine Petetin a Dr Annegret Engel o Ysgol y Gyfraith Caerdydd y berthynas rhwng safonau a mynediad at y farchnad. Dywedasant wrthym:

“On the day of exit, Wales (and the rest of the UK) will no longer be part of the EU discussions to develop agricultural and environmental standards but will have to abide by them if it wants to continue trading with the EU. This phenomenon is called the ‘Brussels effect’ or ‘extra-territoriality’ of EU legislation and standards.”¹⁵

Barn Llywodraeth Cymru

26. Yn ystod tystiolaeth lafar, tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (Ysgrifennydd y Cabinet) sylw at y gwahanol ddewisiadau sydd ar gael i'r Deyrnas Unedig o ganlyniad i'r cytundeb a wnaed yn ystod Cam Un y trafodaethau. Dywedodd Mark Drakeford wrthym:

“We think that, from a Welsh perspective, ongoing regulatory alignment with the European Union will be the safest way of securing non-tariff barrier trade, particularly in areas such as agriculture.”¹⁶

EIN BARN A’N HARGYMHELLION

Rydym yn nodi'r berthynas wrthdro rhwng gwahaniaethau rheoleiddio a lefel y mynediad at farchnad yr Undeb Ewropeaidd fydd ar gael i'r Deyrnas Unedig ar ôl Brexit.

¹³ [FRL27 Cymdeithas Milfeddygon Prydain](#)

¹⁴ [FRL20 Dr Victoria Jenkins](#)

¹⁵ [FRL14 Dr Ludivine Petetin a Dr Annegret Engel](#)

¹⁶ Cofnod y Trafodion, [paragraff 186](#) – 5 Mawrth 2018

O'r dystiolaeth a gafwyd, nid ydym wedi ein darbwylllo ynghylch gwerth gwahaniaethau rheoleiddiol ar ôl Brexit, ac rydym yn nodi bod y dystiolaeth yn rhoi blaenoriaeth helaeth i gynnal safonau rheoleiddio cyfatebol er mwyn sicrhau mynediad ffafriol at y farchnad dros wahaniaethau rheoleiddio ar ôl Brexit.

Rydym yn nodi'r ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig drwy Gydbwyllgor y Gweinidogion ar Drafodaethau'r Undeb Ewropeaidd (JMC(EN)) i nodi mecanwaith i alluogi'r llywodraethau datganoledig i fod yn rhan o'r trafodaethau ar y fframwaith ar gyfer partneriaeth â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad hwn ac yn credu ei bod yn hanfodol o ran sicrhau bod pryderon a diddordebau holl wledydd y Deyrnas Unedig yn cael eu hadlewyrchu yn y sefyllfa negodi derfynol. Rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyhoeddi manylion y cynnig hwn yn fuan.

Rydym yn nodi fod y Prif Weinidog wedi datgan yn ei haraith ddiweddar y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ceisio cytundeb masnach â'r Undeb Ewropeaidd a threfniant tollau posibl. Ni ddylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig fod o dan unrhyw gamargraff ynghylch y safbwyntiau a fynegwyd i ni ynghylch canlyniadau economaidd anffafriol posibl i Gymru peidio â sicrhau mynediad at y farchnad yn rhydd o rwystrau tariff a rhwystrau di-dariff.

Rydym yn disgwyl i Weinidogion y Deyrnas Unedig ystyried y goblygiadau ar gyfer pob rhan gyfansoddol o'r Deyrnas Unedig, a byddwn yn parhau i'w gwahodd i ymddangos ger ein bron fel Pwyllgor i esbonio eu sefyllfa negodi a sut mae barn rhanddeiliaid Cymru wedi cael ei hystyried.

Rydym yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i flaenoriaethu mynediad ffafriol at y farchnad, yn rhydd o rwystrau tariff a rhwystrau di-dariff, yn ei thrafodaethau sydd ar ddod gyda'r Undeb Ewropeaidd ar y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn trafod gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod mynediad ffafriol at y farchnad, yn rhydd o rwystrau tariff a rhwystrau di-dariff, yn cael ei flaenoriaethu yn y trafodaethau sydd ar ddod ar berthynas y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol.

2. 3. Ffermio, pysgodfeydd a bwyd

27. Pwysleisiodd NFU Cymru, Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru bwysigrwydd mynediad dirwysr at y Farchnad Sengl i'r

sector ffermio hefyd.¹⁷ Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd Hybu Cig Cymru fod 93 y cant o allforion cig eidion Cymru yn mynd i'r Undeb Ewropeaidd, yn yr un modd â 92 y cant o allforion cig oen Cymru, wrth eu mesur yn ôl gwerth.¹⁸ Yn yr un modd, dywedodd Jim Evans o Gymdeithas Pysgotwyr Cymru fod 90 y cant o ddalfeydd yng Nghymru yn cael eu hallforio i'r Undeb Ewropeaidd. Dywedodd Mr Evans wrthym y byddai'r farchnad bysgod cregyn yn arbennig o fregus yn sgil rhwystrau:

“unfettered access to the single market is particularly important, because 90 per cent of the Welsh landed catch is exported to the EU, and non-tariff barriers will be particularly devastating to the export of live Crustacea [...] obviously, controls and delays at ports and such and other boundaries would risk mortality and financial loss and nobody wants to see that. So there are particular issues there and shellfish businesses in Wales are particularly vulnerable to that because of the dynamic nature of supply and there being very quick turnover of product.”¹⁹

28. Ateggodd y Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Ysgafn Prydain farn y diwydiannau ffermio a physgota yn eu cyflwyniad ysgrifenedig. Dywedasant y byddai'r sector bwyd a diod yn arbennig o agored i unrhyw rwystr masnachu newydd o ran y Farchnad Sengl.²⁰ Yn eu cyflwyniad ysgrifenedig, pwysleisiwyd hefyd natur hynod integredig cadwyni cyflenwi yn y sector. Ar ben hynny, maent yn nodi eu barn na ellid mynd i'r afael â chyflwyno rhwystrau nad ydynt yn ymwneud â thariffau, fel archwiliadau iechyd planhigion ac anifeiliaid, drwy ddefnyddio technoleg newydd yn unig ar groesfannau ar y ffin.²¹

29. Amlygodd Cymdeithas Milfeddygol Prydain y ffaith:

“Should the UK neither become a non-EU European Economic Area (EEA) country nor enter a customs union with the EU administrative checks would apply to UK imports from and exports to the EU as currently apply to trade with non-EU countries. This is likely to be the case whether UK trade with the EU is conducted under a Free Trade

¹⁷ **FRL06 NFU Cymru; FRL25 Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru;** Cofnod y Trafodion **paragraff 58** – 29 Ionawr 2018;

¹⁸ **FRL09 Hybu Cig Cymru**

¹⁹ Cofnod y Trafodion, **paragraff 151** – 29 Ionawr 2018

²⁰ **FRL22 Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Ysgafn Prydain**

²¹ Ibid.

Agreement or under WTO rules. Any additional costs will be incurred over and above tariff-related costs.”²²

EIN BARN A’N HARGYMHELLION

Rydym yn cydnabod yr heriau penodol sy’n wynebu diwydiannau sy’n masnachu mewn nwyddau mwy pydradwy – fel ffermio, pysgota a bwyd – drwy godi rhwystrau di-dariff newydd ar ôl Brexit. Yn benodol, byddai rhwystrau di-dariff newydd fel archwiliadau iechyd planhigion ac anifeiliaid yn fygythiad i allforio parhaus cynnyrch amaethyddol, pysgota a bwyd Cymru i’r Undeb Ewropeaidd. Mae’n hanfodol i Gymru bod mynediad ffafriol at y farchnad, heb rwystrau tariff a rhwystrau di-dariff, yn cael ei sicrhau ar ôl Brexit. Rydym yn nodi ymrwymiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gynnal y lefelau cyfredol o gyllid ar gyfer cymorth i ffermydd yn y Deyrnas Unedig tan 2022.²³

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ei thrafodaethau â Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn galw arni i sicrhau bod buddiannau’r diwydiannau ffermio, pysgota a bwyd yn cael eu diogelu yn ystod y broses ymadael.

Argymhelliad 3. I’r perwyl hwnnw, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gasglu tystiolaeth ar ddibyniaeth y sectorau hyn ar farchnad yr Undeb Ewropeaidd ac i gyflwyno’r canfyddiadau hyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn cryfhau ei galwadau.

2. 4. Rôl yr Undeb Tollau

30. Yn ychwanegol at yr angen am fasnach ddirwystr, roedd nifer o randdeiliaid yn cyfeirio’n benodol at yr Undeb Tollau yn eu tystiolaeth. Galwodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), Unite Wales, a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar i’r Deyrnas Unedig barhau yn yr Undeb Tollau ar ôl Brexit.²⁴ Nododd y Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Ysgafn Prydain eu barn y bydd negodi model tollau newydd sy’n darparu’r un rhwyddineb i fasnachu yn “her fawr”, ond dywedasant y dylai fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Deyrnas

²² **FRL27 Cymdeithas Milfeddygon Prydain**

²³ Llywodraeth EM, “**Farming for the next generation**”; – 4 Ionawr 2018

²⁴ **FRL08 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, FRL12 Unite Cymru, FRL17 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Unedig er mwyn osgoi amharu ar gadwyni cyflenwi sy'n dibynnu ar gynhwysion pydradwy.²⁵

31. Galwodd ABPI ar i'r Deyrnas Unedig gynnal telerau masnachu ar gyfer nwyddau a gwasanaethau'r Gwyddorau Bywyd sy'n gyfwerth â **system gyffredin o Dreth Gwerth Ychwanegol** (TAW) aelod llawn o'r Undeb Tollau a'r Undeb Ewropeaidd.²⁶

32. Nododd rhai rhanddeiliaid, fel NFU Cymru, y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol a'r ABPI, gyfleoedd newydd i fasnachu ar ôl Brexit, ond pwysleisiwyd hefyd mai'r Undeb Ewropeaidd fyddai'r farchnad bwysicaf o hyd yn y tymor canolig o leiaf.²⁷

33. Dywedodd Hybu Cig Cymru y gallai fod marchnadoedd newydd ar gyfer cynhyrchion cig coch ond y byddai gofyn i'r diwydiant ymgymryd â gweithredu ar y cyd dros gyfnod o flynyddoedd i gynyddu'r cyfnod y gall cynhyrchion cig coch fod ar y silff.²⁸ Amlygodd hefyd rai anawsterau presennol o ran allforio i wledydd nad ydynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd nad ydynt yn berthnasol i aelodaeth gyfredol y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd.²⁹

34. Yn yr un modd, dywedodd y Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Ysgafn Prydain fod cyfleoedd am dwf mewn allforio i wledydd fel Tsieina, India a'r Emiradau Arabaidd Unedig, ond mae busnesau ar hyn o bryd yn cael trafferth cael mynediad at y marchnadoedd hyn oherwydd eu cymhlethdod, eu cost a'r ffaith eu bod yn anghyfarwydd.³⁰

35. Yn ei gyflwyniad, amlygodd Maes Awyr Caerdydd y cyfleoedd posibl ar ôl Brexit i ostwng trethi teithwyr ac ailgyflwyno pryniannau di-doll ar gyfer teithiau hedfan byr.³¹

36. Yn ystod y sesiwn rhanddeiliaid, esboniodd Dr Tobias Lock rai o oblygiadau ymarferol aelodaeth o'r Undeb Tollau, neu unrhyw undeb tollau, o ran masnach y Deyrnas Unedig. Meddai Dr Lock:

²⁵ **FRL22 Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Ysgafn Prydain**

²⁶ **FRL03 Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain**

²⁷ **FRL03 Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain, FRL05 Cymdeithas Ddefaid Genedlaethol Cymru, FRL06 NFU Cymru**

²⁸ **FRL09 Hybu Cig Cymru**

²⁹ Ibid.

³⁰ **FRL22 Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Ysgafn Prydain**

³¹ **FRL29 Maes Awyr Caerdydd**

“The EEA—even the Norway model—would not mean that the UK would be in the customs union, or in a customs union with the EU. That would have to be negotiated separately and, of course, being in a customs union reduces the ability to negotiate free trade agreements. It doesn’t exclude the ability to do so, but what you cannot do is you cannot agree on different customs tariffs with third countries. If you’re in the EU customs union and the customs tariff on the import of cars is 10 per cent, you can’t negotiate that away with a country that the EU doesn’t have a free trade agreement with. What you can still do is you can still talk about non-tariff barriers with these countries, about product standards, safety standards and that kind of stuff, and you can, of course, talk about services, because there’s no really meaningful free trade agreement that the EU has in terms of services, and also they have nothing to do with customs duties.”³²

37. Tynnodd elusen RSPCA Cymru sylw yn ei chyflwyniad ysgrifenedig at y berthynas rhwng undebau tollau rhwng y Deyrnas Unedig a’r Undeb Ewropeaidd a lles anifeiliaid.³³ Yn benodol, dywedodd y gallai cynnal undeb tollau â’r Undeb Ewropeaidd leihau’r oedi posibl ar y ffin oherwydd na fyddai angen gwirio tarddiad y cynhyrchion/anifeiliaid. Ymhellach, nododd y gallai cynnal trefniant undeb tollau â’r Undeb Ewropeaidd ei gwneud hi’n haws i’r Deyrnas Unedig etifeddu’r 65 o Gytundebau Masnach Rydd yr Undeb Ewropeaidd (FTA) ar ôl Brexit, er y byddai’n rhaid i’r Undeb Ewropeaidd a phob trydedd wlad hefyd gytuno i hyn.

38. Amlygodd ABPI bryderon ynghylch y tarfu ar gadwyni cyflenwi meddyginiaeth pe bai masnach rhwng y Deyrnas Unedig a’r Undeb Ewropeaidd yn destun tollau a TAW mewnfario ar ôl Brexit. Ar ben hynny, dywedodd wrthym fod oedi o’r fath yn arbennig o berthnasol o ran meddyginiaethau sy’n sensitif i amser ac i dymheredd, fel therapïau celloedd a genynnau blaengar.³⁴

39. Tynnodd y WCVA sylw at yr angen i aros yn y Farchnad Sengl a’r Undeb Tollau er mwyn atal ffin galed rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon.³⁵

³² Cofnod y Trafodion, **paragraff 34** – 29 Ionawr 2018

³³ **FRL30 RSPCA Cymru**

³⁴ **FRL03 Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain**

³⁵ **FRL08 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**

Barn Llywodraeth Cymru

40. Yn y ddogfen Sicrhau Dyfodol Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn galw'n benodol ar i'r Deyrnas Unedig barhau i fod yn aelod o'r Undeb Tollau ar ôl Brexit. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

"I think the first thing I would say is that the fundamentals of 'Securing Wales' Future' have stood us in very good stead over the last 12 months. I don't think we would need to amend the key things that we said in that document. We continue to look for a Brexit deal that is aimed at preserving and promoting prosperity, and therefore one that puts the needs of the economy first. All the things we've said in 'Securing Wales' Future' about full and unfettered access to the single market, membership of a customs union [...] those six priorities that we set out in 'Securing Wales' Future', I think, would be our priorities today."³⁶

EIN BARN A'N HARGYMHELLION

Rydym yn nodi, er bod aros yn yr Undeb Tollau yn cyfyngu ar allu'r Deyrnas Unedig i gytuno ar gytundebau masnach newydd ar ôl Brexit, nid yw'n eithrio'r posibilrwydd hwnnw'n gyfan gwbl. Rydym hefyd yn nodi'r dystiolaeth sy'n nodi y gallai parhau mewn rhyw fath o undeb tollau â'r Undeb Ewropeaidd sicrhau bod y risg o oedi ar y ffin yn cael ei leihau. At hynny, rydym yn nodi y byddai cynnal trefniant tollau â'r Undeb Ewropeaidd yn cynyddu'r rhwyddineb y gall y Deyrnas Unedig etifeddu'r 65 o Gytundebau Masnach Rydd sydd gan yr Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit.

Rydym hefyd yn nodi y gallai trefniant tollau newydd â'r Undeb Ewropeaidd, sy'n adlewyrchu'r trefniadau presennol yn fras, helpu i leihau'r risgiau o oedi yn sgil tollau ar ffiniau ac mewn porthladdoedd.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflwyno cynigion credadwy o ran trefniadau tollau'r Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol cyn gynted ag y bo modd.

³⁶ Cofnod y Trafodion, **paragraff 115** - 5 Mawrth 2018

Argymhelliad 5. Wrth ymgymryd â gwaith i baratoi ar gyfer senario “dim bargaen”, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yr effaith y gallai trefniadau tollau eraill ei chael ar Gymru, a pha gamau y gallai fod angen eu cymryd i baratoi ar gyfer y rhain.



PASSPORT

Pennod 3:

Mewnfudo a rhyddid pobl i symud

Roedd mewnfudo yn fater allweddol yn ystod ymgyrch y refferendwm. Mae'r bennod hon yn edrych ar yr hyn y dywedodd pobl wrthym mewn perthynas â rhyddid pobl i symud.

3. Mewnfudo a rhyddid pobl i symud

Roedd mewnfudo yn fater allweddol yn ystod ymgyrch y refferendwm. Mae'r bennod hon yn edrych ar yr hyn y dywedodd pobl wrthym mewn perthynas â rhyddid pobl i symud.

3.1. Hawliau dinasyddion

41. Galwodd llawer o randdeiliaid am eglurder mewn perthynas â statws a hawliau dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd sy'n gweithio yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd er mwyn lleihau'r risg y bydd yr unigolion hynny yn gadael y Deyrnas Unedig.³⁷ Yn ei dystiolaeth, dywedodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru wrthym:

“At a UK-wide level we have already seen a significant impact in terms of numbers of European Economic Area (EEA) nationals leaving the UK and a huge drop in numbers of EEA nationals applying to work in the UK. Figures from the Health Foundation in December 2017 showed there has already been a 96 per cent reduction in the number of EU nurses coming to the UK.”³⁸

42. Yn y gynhadledd, dywedodd Dr Stephen Monaghan o'r BMA wrthym fod rhoi sicrwydd i feddygon yr Undeb Ewropeaidd sy'n gweithio yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd yn bwysig, o gofio bod 85 y cant o feddygon yr Undeb Ewropeaidd a holwyd gan y BMA naill ai'n gwneud cynlluniau i adael y Deyrnas Unedig neu'n ystyried gadael.³⁹

Adroddiad ar y cyd yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig

43. O ran hawliau dinasyddion, y ddealltwriaeth gyffredin a fynegir yn adroddiad ar y cyd y Cam Cyntaf yw y byddai dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd a dinasyddion gwledydd y Deyrnas Unedig, yn ogystal â'u teuluoedd, yn parhau i arfer eu hawliau sy'n deillio o gyfraith yr Undeb yn nhiriogaethau'r naill a'r llall, pan fo'r hawliau hynny'n seiliedig ar ddewisiadau bywyd a wnaed cyn y dyddiad y

³⁷ **Unsain Cymru; Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru; Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr; Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain;**

³⁸ **FRL10 Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru**

³⁹ Cofnod y Trafodion, **paragraff 68** - 29 Ionawr 2018

mae'r adroddiad ar y cyd yn ei alw'n "ddyddiad penodedig".⁴⁰ Rydym yn nodi bod mater hawliau dinasyddion yn parhau i fod yn rhan o'r trafodaethau rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ar weithredu'r Cytundeb Tynnu'n ôl yn gyfreithiol.

EIN BARN NI

Rydym yn nodi pryderon rhanddeiliaid y gall ansicrwydd fod yn cael effaith ar nifer y bobl o wledydd yr Undeb Ewropeaidd a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd sy'n gadael y Deyrnas Unedig, a phryderon penodol y sector gofal iechyd yn hynny o beth.

Rydym yn croesawu'r cytundeb Cam Un, a'r cytundeb ar bontio, o ran hawliau dinasyddion, a gobeithiwn ei fod yn rhoi rhagor o sicrwydd i ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn y Deyrnas Unedig a hefyd i ddinasyddion y Deyrnas Unedig sy'n byw ac yn gweithio yn yr Undeb Ewropeaidd. Rydym yn nodi bod rhai materion mewn perthynas â hawliau dinasyddion yn parhau i fod yn amodol ar y trafodaethau terfynol, ac rydym yn gobeithio y bydd y trafodaethau hyn yn cael eu cwblhau cyn gynted â phosibl.

Rydym yn nodi ymhellach y pwyslais a roddir ar hawliau dinasyddion gan Dasglu Brexit Senedd Ewrop, a chytunwn fod cytundeb ar hyn o fudd i bawb.

3. 2. Dibyniaeth sectoraidd ar ymfudwyr o'r Undeb Ewropeaidd

44. Amlygodd nifer o sefydliadau ddibyniaeth bresennol eu sectorau ar weithwyr o'r Undeb Ewropeaidd. Yn benodol, clywsom fod y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol, prosesu bwyd, addysg uwch, peirianeg sifil a diwylliannol yn ddibynnol iawn ar y gweithwyr hyn.⁴¹

45. Dywedodd y Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Ysgafn Prydain y gallai canolbwyntio ar gynlluniau hyfforddi i lenwi'r bylchau sgiliau helpu yn y dyfodol. Fodd bynnag, roeddent yn dadlau na fyddai'n bosibl cyflawni hyn yn y tymor byr. At hynny, dywedasant y byddai unrhyw ostyngiad sydyn yn nifer y

⁴⁰ Y Comisiwn Ewropeaidd, **Joint report from the negotiators of the European Union and the United Kingdom Government on progress during phase 1 of negotiations under Article 50 TEU on the United Kingdom's orderly withdrawal from the European Union** – 8 Rhagfyr 2017

⁴¹ **Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Ysgafn Prydain: Sefydliad y Peirianwyr Sifil; Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain; Confederasiwn GIG Cymru; Coleg Nyrso Brenhinol Cymru; Celfyddydau Rhyngwladol Cymru**

gweithwyr o'r Undeb Ewropeaidd yn y diwydiant prosesu bwyd a diod yn arwain at "amhariad sylweddol".⁴²

46. Yn yr un modd, tynnodd Hybu Cig Cymru sylw at bwysigrwydd gweithwyr o'r Undeb Ewropeaidd i'r sector prosesu bwyd, a phwysigrwydd milfeddygon o'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer gofalu am anifeiliaid fferm.⁴³ Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cymdeithas Milfeddygon Prydain fod chwarter y milfeddygon sy'n gweithio yng Nghymru yn raddedigion o'r Undeb Ewropeaidd nad ydynt yn dod o'r Deyrnas Unedig, a dywedodd fod mynediad at filfeddygon yr Undeb Ewropeaidd yn arbennig o bwysig mewn swyddogaethau iechyd y cyhoedd fel y rhai a geir mewn lladd-dai ac mewn porthladdoedd.⁴⁴

47. Mynegodd Lisa Turnbull o'r Coleg Nyrsio bryder yn ystod ei chyfraniad at y gynhadledd rhanddeiliaid nad oedd unrhyw asesiad wedi ei wneud o nifer y gweithwyr o'r Undeb Ewropeaidd yn y sector gofal cymdeithasol a gofal cartref annibynnol.⁴⁵

48. Amlygodd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru (UCMC) a Phrifysgolion Cymru gyfraniad staff academiaidd a myfyrwyr yr Undeb Ewropeaidd at economi Cymru ac at gynnal rhagoriaeth ymchwil yng Nghymru.⁴⁶

49. Dywedodd Ben Cottam o FSB Cymru wrth y gynhadledd rhanddeiliaid, yn groes i ganfyddiad poblogaidd, bod llawer o aelodau ei sefydliad yn recriwtio gweithwyr hynod fedrus o'r Undeb Ewropeaidd:

"The first is the protection of the right and the ability to recruit from EU markets. We know from our membership that this is vitally important for businesses in Wales. Around one in five of our members have employees from within the EU and actually we found that, in the main, our members recruit to fill skills gaps in actually mid to high-level skills areas. So, far from maybe the popular perception of EU labour filling lower skills shortages, actually there are quite highly sought-after skills that my members are recruiting for, and gaps that exist in the existing market within Wales and the rest of the UK."⁴⁷

⁴² **FRL22 Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Ysgafn Prydain**

⁴³ **FRL09 Hybu Cig Cymru**

⁴⁴ **FRL27 Cymdeithas Milfeddygon Prydain**

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, **paragraff 106** – 29 Ionawr 2018

⁴⁶ **FRL13 NUS Wales; FRL11 Prifysgolion Cymru**

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, **paragraff 81** – 29 Ionawr 2018

50. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, roedd FSB Cymru, Cymdeithas Milfeddygon Prydain, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru, Prifysgolion Cymru ac UCMC oll yn galw am warant y bydd yn parhau i fod yn rhwydd i sefydliadau recriwtio gweithwyr yr Undeb Ewropeaidd pan fo angen.⁴⁸

51. Tynnodd Beth Button o Brifysgolion Cymru sylw at risgiau creu rhwystrau ychwanegol i brifysgolion sy'n dymuno recriwtio staff a myfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd.⁴⁹

52. Yn eu cyflwyniad ysgrifenedig ar y cyd, tynnodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru sylw at bwysigrwydd symudedd i gwmnïau celfyddydol teithiol. Fe wnaethant nodi enghraifft syrcais "No Fit State", y bu'n rhaid iddi dalu £46,000 yn ychwanegol i fynd â'r sioe ar daith i Unol Daleithiau America, o gymharu hynny â chost mynd â'r un sioe ar daith yn yr Undeb Ewropeaidd, oherwydd costau fisa, teithio, ardystio a meddygol ychwanegol.⁵⁰

Barn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig

53. Yn flaenorol, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi datgan y bydd y rhyddid i symud yn dod i ben pan fydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, ac yn y pen draw y bydd system fewnfudo newydd ar ôl Brexit.⁵¹

54. Rydym yn nodi fod y Prif Weinidog wedi dweud yn ei haraith yn y Mansion House yn ddiweddar y byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn "agored i drafod" sut gall y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd hwyluso recriwtio gweithwyr o'r Undeb Ewropeaidd gan gwmnïau o'r Deyrnas Unedig, a gweithwyr o'r Deyrnas Unedig gan gwmnïau o'r Undeb Ewropeaidd, ac edrychwn ymlaen at ragor o fanylion gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig am y cynigion hyn.⁵²

⁴⁸ **Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru; Cymdeithas Milfeddygon Prydain; Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru; Prifysgolion Cymru; Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru**

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, **paragraff 123** – 29 Ionawr 2018

⁵⁰ **FRL32 Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru**

⁵¹ Llywodraeth EM, "**The government's negotiating objectives for exiting the EU: PM speech**" – 17 Ionawr 2017

⁵² Llywodraeth EM, "**PM's speech on our future economic partnership with the European Union**" – 2 Mawrth 2018

55. Yn ei phapur ar “**Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl**”, mae Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at rôl ymfudwyr o’r Undeb Ewropeaidd yn economi Cymru.⁵³ Y sefyllfa a nodir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â’r rhyddid i symud yw cysylltu ymfudo i’r Deyrnas Unedig yn agosach at gyflogaeth.

56. Yn ystod tystiolaeth lafar, mynegodd Ysgrifennydd y Cabinet bryder hefyd fod Bil Mewnfudo disgwylidig Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ei ohirio tan fis Rhagfyr 2018.⁵⁴

EIN BARN A’N HARGYMHELLION

Rydym yn derbyn y pryderon y tynnodd rhanddeiliaid ein sylw atynt fod rhai sectorau yn fwy agored i effeithiau anffafriol colli gweithwyr mudol o’r Undeb Ewropeaidd nag eraill, a bod risgiau’n gysylltiedig â therfyn sydyn ar ryddid i symud. Mae’n amlwg i ni fod yn rhaid rheoli’r newid i system fewnfudo newydd yn ofalus er mwyn helpu i liniaru’r risgiau i economi Cymru. Rydym yn gobeithio y bydd y cytundeb ar y cyfnod pontio yn rhoi rhagor o amser i sefydliadau a busnesau Cymru baratoi ar gyfer newidiadau yn y dyfodol.

Er ein bod yn croesawu sylwadau’r Prif Weinidog ar hwyluso recriwtio gweithwyr o’r Undeb Ewropeaidd ac i’r gwrthwyneb ar ôl Brexit, rydym yn siomedig bod Bil Mewnfudo arfaethedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ei ohirio tan fis Rhagfyr 2018.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio eglurder gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar yr amserlenni ar gyfer symud at system fewnfudo yn y dyfodol cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi sicrwydd y mae ei angen yn fawr ar fusnesau a chyrff y sector cyhoeddus ar y materion recriwtio y gallant eu hwynebu yn y dyfodol.

⁵³ Llywodraeth Cymru, “**Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl**” – 7 Medi 2017

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, **paragraff 144** – 5 Mawrth 2018





Pennod 4:

Parhau i ymwneud ag asiantaethau a rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd

Mae ein pennod nesaf yn edrych ar y dystiolaeth a gawsom mewn perthynas â pharhad cysylltiad Cymru a'r Deyrnas Unedig â rhai o asiantaethau a rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit.

4. Parhau i ymwneud ag asiantaethau a rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd

Mae ein pennod nesaf yn edrych ar y dystiolaeth a gawsom mewn perthynas â pharhad cysylltiad Cymru a'r Deyrnas Unedig â rhai o asiantaethau a rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit.

4.1. Cyfranogiad yn asiantaethau'r Undeb Ewropeaidd

57. Roedd **araith Mansion House y Prif Weinidog** yn nodi rhagor o fanylion am ei gweledigaeth ar gyfer partneriaeth economaidd y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol.⁵⁵ Yn allweddol, nododd y Prif Weinidog nifer o asiantaethau y byddai'n fuddiol i bawb pe bai'r Deyrnas Unedig yn parhau i fod yn rhan ohonynt, a dywedodd y byddai'r Deyrnas Unedig yn ceisio aelodaeth gswllt o'r sefydliadau hyn. Wrth wneud hynny, dywedodd y Prif Weinidog y byddai'r Deyrnas Unedig yn parchu awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop. Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i'r Undeb Ewropeaidd fod yn fodlon y byddai aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r sefydliadau hyn yn fuddiol iddo yntau.

58. Cytunodd llawer o randdeiliaid y dylai'r Deyrnas Unedig geisio dod i gytundeb i barhau i fod yn rhan o asiantaethau'r Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit, neu gydweithio â hwy. Galwodd Maes Awyr Caerdydd yn ei gyflwyniad ysgrifenedig am gyfranogiad parhaus y Deyrnas Unedig yn Asiantaeth Diogelwch Hedfan Ewrop.⁵⁶ Rydym yn nodi bod y Prif Weinidog wedi sôn yn ei haraith am y potensial ar gyfer cytundeb yn y dyfodol ar hedfan, ynghyd â Senedd Ewrop yn ei chynnig ar y fframwaith ar gyfer partneriaeth yn y dyfodol, a hefyd y Cyngor Ewropeaidd yn ei ganllawiau trafod drafft.

59. Galwodd Cymdeithas Milfeddygon Prydain am gyfranogiad parhaus y Deyrnas Unedig yn system gofrestru cynnyrch milfeddygol yr Undeb Ewropeaidd.⁵⁷

⁵⁵ Llywodraeth EM, "**PM's speech on our future economic partnership with the European Union**" – 2 Mawrth 2018

⁵⁶ **FRL29 Maes Awyr Caerdydd**

⁵⁷ **FRL27 Cymdeithas Milfeddygon Prydain**

60. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, mae'r RSPCA, y Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Ysgafn Prydain yn galw am gydweithrediad parhaus y Deyrnas Unedig â'r Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd (EFSA).⁵⁸ Ategwyd y farn hon gan Dr Monaghan o'r BMA yn ei gyfraniad at y gynhadledd.⁵⁹

61. Rhestrodd Unite Wales, yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nifer o asiantaethau y mae'n credu y dylai'r Deyrnas Unedig barhau i fod yn rhan ohonynt, neu eu hail-greu, ar ôl Brexit. Mae'r rhain yn cynnwys yr Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd, Asiantaeth Diogelwch Hedfan Ewrop, Canolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop, Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop, yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Diogelwch ac Iechyd yn y gwaith ac Asiantaeth Diogelwch Morwrol Ewrop.⁶⁰

EIN BARN A'N HARGYMHELLION

Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth y Prif Weinidog bod nifer o asiantaethau lle byddai cyfranogiad parhaus o fudd i'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig gyhoeddi rhestr cyn gynted â phosibl o'r holl asiantaethau Ewropeaidd y mae'n dymuno parhau i ymwneud â hwy. Mae hefyd yn bwysig ceisio eglurder cynnar ynghylch a yw'r Undeb Ewropeaidd yn barod i gynnig aelodaeth gyswllt i'r Deyrnas Unedig ar gyfer y cyrff hyn. Os nad yw, mae angen i Lywodraeth y Deyrnas Unedig weithio ar frys â'r llywodraethau datganoledig a'r rhanddeiliaid i sefydlu sut bydd unrhyw fwllch llywodraethu a grëir o ganlyniad i golli mynediad at y cyrff hyn yn cael ei lenwi.

Gan gydnabod na all Llywodraeth Cymru, ynnddi nac ohoni hi ei hun, negodi i gynnal aelodaeth o'r asiantaethau hyn, mae'n bwysig ei bod yn ceisio ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru a sefydliadau yng Nghymru gynnal cysylltiadau â'r asiantaethau hyn ar ôl Brexit.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhestr o asiantaethau Ewropeaidd y mae wedi eu nodi fel rhai pwysig i Gymru o ran cyfranogiad parhaus ar ôl Brexit.

⁵⁸ [FRL30 RSPCA Cymru](#); [FRL22 Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Ysgafn Prydain](#)

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 178](#) – 29 Ionawr 2018

⁶⁰ [FRL12 Unite Cymru](#)

4. 2. Parhau i ymwneud ag asiantaethau iechyd

Canolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop

62. Galwodd Conffederasiwn GIG Cymru, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, a BMA Cymru ar i'r Deyrnas Unedig barhau i fod yn rhan o system goruchwyllo afiechydon yr Undeb Ewropeaidd sy'n helpu i atal lledaeniad pandemigau, a Chanolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop.⁶¹ Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru wrthym:

“As diseases know no borders, and as many of Europe’s health and demographic challenges are shared, we call for a framework to be put in place between the EU and the UK post-Brexit to ensure that there is knowledge sharing to strengthen public health and to support the response to public health threats.”⁶²

63. Yn yr un modd, dywedodd y Coleg Nyrsio Brenhinol wrthym ei bod yn “hanfodol” bod y Deyrnas Unedig yn ceisio perthynas waith agos gyda Chanolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop. Yn ôl y Coleg:

“As there are a number of associative models available, this should be a relatively easy process. The UK must retain the ability to contribute to, and compare, surveillance data to ensure UK health systems are prepared as the epidemiology of resistant organisms develop. It is paramount that Brexit does not negatively affect this.”⁶³

64. Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru fod y lefel uchaf posibl o gydlyniant ar hybu iechyd ac atal afiechydon ar ôl Brexit yn allweddol:

“To ensure that public health for all EU and UK citizens is maintained post Brexit, it is key that there is strong coordination between the EU and UK to deal with pandemics, as well as other key health threats, and there is the highest possible level of coordination on health promotion and disease prevention programmes.”⁶⁴

⁶¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 277 - 29 Ionawr 2018; **FRL04 Conffederasiwn GIG Cymru**; **FRL10 Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru**

⁶² **FRL04 Conffederasiwn GIG Cymru**

⁶³ **FRL10 Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru**

⁶⁴ **FRL04 Conffederasiwn GIG Cymru**

65. Adleisiodd Dr Monaghan o BMA Cymru y teimladau hyn, a dywedodd wrth y gynhadledd bod cynnal perthynas ag Asiantaeth Rheoli ac Atal Clefydau Ewrop yn “hanfodol”.⁶⁵

EIN BARN A’N HARGYMHELLION

Rydym o’r farn y byddai aelodaeth barhaus y Deyrnas Unedig o asiantaethau sy’n ymwneud â maes atal afiechydon ac iechyd y cyhoedd yn Ewrop, a’i chyfranogiad ynddynt, yn ddiamwys yn fuddiol i’r holl bartïon dan sylw.

Argymhelliad 8. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru’n gweithio gyda chyrff y GIG, rhanddeiliaid iechyd y cyhoedd a sefydliadau iechyd yng Nghymru i nodi cysylltiadau cyfredol â’r asiantaethau a’r rhwydweithiau hyn i awgrymu dewisiadau posibl o ran sut gallai cydweithio barhaus ar ôl Brexit.

Yr Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd

66. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, galwodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, y Sefydliad Materion Cymreig ac ABPI am gydweithrediad parhaus â’r Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd.⁶⁶

67. Dywedodd Dr Monaghan o BMA Cymru wrthym:

“We mentioned earlier the European Medicines Agency, and almost certainly, that is going to continue to underpin pharmaceuticals in Europe—Europe’s too big a market. The UK isn’t large enough, so that’s likely to hold sway. It will be in Amsterdam, and it’s a very large agency. It was one of the jewels of the agency system in the EU, and it’s a big loss for the UK to lose that because of its network and cluster effects for medical research. And that’s aside from—as I’ve mentioned earlier—all the clinical trials that have been underpinned by the European Court of Justice’s rules about how you can treat research subjects, et cetera; that’s going to carry on. We can decide whether we’re in or out of it.”⁶⁷

68. Yn yr un modd, o ystyried ei rôl yn rheoleiddio isotopau ar gyfer radiotherapi, galwodd Dr Monaghan am ystyried parhau i fod yn rhan o Euratom (y sefydliad

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, **paragraff 177** – 29 Ionawr 2018

⁶⁶ **FRL10 Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, FRL23 Sefydliad Materion Cymreig, FRL03 Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain**

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, **paragraff 180** – 29 Ionawr 2018

ynni niwclear sifil Ewropeaidd).⁶⁸ Galwodd Unite Cymru ar i'r Deyrnas Unedig barhau i fod yn aelod o'r sefydliad.⁶⁹

Barn Llywodraeth Cymru

69. Yn ystod ei sesiwn gyda ni, disgrifiodd Ysgrifennydd y Cabinet araith Mansion House y Prif Weinidog fel “cam ymlaen” i sicrhau fod y Deyrnas Unedig yn parhau i gyfranogi mewn asiantaethau a rhwydweithiau penodol.⁷⁰

70. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod yr Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd yn “uchel ar y rhestr” o asiantaethau y byddai'n hoffi gweld aelodaeth yn parhau. Dywedodd:

“If you can't be a full member, because full membership is only available to members of the European Union, you've got to invent some new category of member—you've got to be an associate member, or a country member, or a something. Again, if there's willingness to do it, it is not beyond the wit of the people involved in negotiations to create a new category, which we would belong to, that would allow us to go on benefiting and recognise that if you want to benefit you've got to be able to pay the admission price to do so.”⁷¹

EIN BARN A’N HARGYMHELLION

Rydym yn cytuno â'r safbwyntiau a fynegwyd wrthym gan randdeiliaid y dylai aelodaeth barhaus o'r Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd fod yn flaenoriaeth i Gymru, ac i'r Deyrnas Unedig, ar ôl Brexit.

Argymhelliad 9. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn parhau i gymryd rhan yng Nghanolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop, ac Asiantaeth Feddyginiaethau Ewrop, ar ôl Brexit.

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, **paragraff 181** – 29 Ionawr 2018

⁶⁹ **FRL12 Unite Cymru**

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, **paragraff 147** – 5 Mawrth 2018

⁷¹ Cofnod y Trafodion, **paragraff 148** – 5 Mawrth 2018

4. 3. Mynediad parhaus at raglenni cyllido Ewropeaidd

Cyllido ymchwil a datblygu

71. Nododd nifer o randdeiliaid eu bod yn gobeithio y byddai perthynas newydd y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit yn cynnwys cyfranogiad llawn yn rhaglenni ymchwil ac arloesi'r Undeb Ewropeaidd. Dywedodd Prifysgolion Cymru fod sector prifysgolion Cymru wedi cael ei gryfhau a'i wella drwy gymryd rhan mewn rhaglenni Ewropeaidd a ffrydiau cyllido Ewropeaidd.⁷² Yn ogystal, mae'n datgan yn ei gyflwyniad ysgrifenedig ei bod yn hollbwysig bod y berthynas newydd rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn galluogi'r gweithgareddau hyn i gael eu cynnal a'u datblygu ymhellach.⁷³

72. Dywedodd UCMC wrthym y dylid cynnal aelodaeth o Horizon 2020 (ac unrhyw raglen olynol).⁷⁴

73. Yn ei chyflwyniad, dywedodd Prifysgol Caerdydd os na ellir parhau i gael mynediad at Horizon 2020, mae'n rhaid sicrhau cynllun newydd i gefnogi ymchwil rhyngwladol cydweithredol.⁷⁵ Yn ôl y brifysgol:

“the overall level of spending on research and development needs to be maintained at least to current levels to preserve the capacity of UK science and research, and to maintain the UK's position as a world leader in this field. Research and innovation are global pursuits, reliant on ideas and people that are mobile across borders. It is not only the funds provided by the EU but also the networks and facilities made available to researchers. Continued collaboration in international networks is paramount if the UK is to maintain its standing as a leader in science and technology, and drive forward a culture of innovation.”⁷⁶

74. Nododd Prifysgolion Cymru hefyd fod “tanfuddsoddi hanesyddol” mewn seilwaith ymchwil wedi bod yng Nghymru o gymharu'r sefyllfa â gweddill y Deyrnas Unedig, a bod ymgysylltiad a chyllid Ewropeaidd wedi helpu i gau'r

⁷² [FRL11 Prifysgolion Cymru](#)

⁷³ Ibid.

⁷⁴ [FRL13 Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru](#)

⁷⁵ [FRL31 Prifysgol Caerdydd](#)

⁷⁶ [FRL31 Prifysgol Caerdydd](#)

bwlch.⁷⁷ Aiff ymlaen i nodi y gallai Cymru barhau i gwmpo ymhellach ar ei hôl hi heb y buddsoddiad oedd ar gael yn flaenorol drwy raglenni Ewropeaidd.⁷⁸

EIN BARN A’N HARGYMHELLION

Rydym yn cydnabod bod cyllid Ewropeaidd, yn bennaf drwy raglen Horizon 2020, wedi darparu cyfran sylweddol o fuddsoddiad mewn ymchwil a datblygu.

Rydym yn croesawu’r cyfeiriadau a wneir at gydweithrediad posibl mewn meysydd ymchwil ac arloesi gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, Senedd Ewrop a’r Cyngor Ewropeaidd, ac rydym yn credu y dylai hyn fod yn flaenoriaeth allweddol yn y trafodaethau.

Rydym yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn parhau i fod yn rhan o Horizon 2020 ac unrhyw raglen olynol ar ôl Brexit.

Argymhelliad 10. Os na chytunir ar Horizon 2020 nac unrhyw raglen olynol rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a’r Undeb Ewropeaidd, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd y gallai ddarparu cymorth parhaus i sefydliadau Cymru gydweithio â chymheiriaid Ewropeaidd ar ôl Brexit.

Cyllido ymchwil meddygol

75. Yn ôl Conffederasiwn GIG Cymru, drwy Horizon 2020, mae sefydliadau’r Deyrnas Unedig wedi derbyn €3.2 biliwn er 2014, gyda €420 miliwn o hyn yn dod drwy edefyn iechyd y rhaglen.⁷⁹ Yn ôl y Conffederasiwn:

“The formation of strategic partnerships is vital to the progression of medical research. The UK’s access to EU funding programmes is about more than just financial benefit; the collaborative opportunities that are afforded are crucial.”⁸⁰

76. Amlygodd Prifysgolion Cymru bwysigrwydd yr Ardal Ymchwil Ewropeaidd o ran cryfhau cydweithredu mewn ymchwil a hyrwyddo arloesi.⁸¹ Yn yr un modd,

⁷⁷ [FRL11 Prifysgolion Cymru](#)

⁷⁸ [FRL11 Prifysgolion Cymru](#)

⁷⁹ [FRL04 Conffederasiwn GIG Cymru](#)

⁸⁰ Ibid.

⁸¹ [FRL11 Prifysgolion Cymru](#)

argymhellodd Conffederasiwn GIG Cymru fod y Deyrnas Unedig yn parhau i fod yn rhan o'r Ardal Ymchwil Ewropeaidd.⁸²

77. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, tynnodd ABPI sylw at bwysigrwydd cael mynediad at gydweithredu ar ymchwil ledled yr Undeb Ewropeaidd:

“The UK’s eligibility for EU-wide research collaborations also enhances its position as a global research leader, i.e. leading the highest number of Innovative Medicines Initiative (“IMI”) projects, which speed up the development of new medicines in Europe.”⁸³

78. Nododd y Coleg Nyrsio Brenhinol hefyd fanteision cydweithredu ar ymchwil datblygedig:

“International collaboration and exchange increases the speed and likelihood of finding solutions to global societal challenges, as well as adopting insight and innovation at faster rates.”⁸⁴

79. Amlygodd rhai rhanddeiliaid hefyd rôl treialon clinigol ar draws Ewrop. Yn ystod y gynhadledd, dywedodd Nesta Lloyd-Jones o Gonffederasiwn GIG Cymru wrthym fod Cymru ar hyn o bryd yn rhan o dreialon clinigol mwy o faint ar draws Ewrop.⁸⁵ Mynegodd ABPI bryder ynghylch a all y Deyrnas Unedig barhau i fod yn rhan o'r treialon hyn:

“Wales and the UK will become less appealing for clinical trials if they do not have access to the EU clinical trials portals and database. Participation in this common framework is also important in ensuring our patients have access to new medicines and treatments.”⁸⁶

80. Codwyd mater yr Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd yn flaenorol gan Steffan Lewis AC, yn ystod un o sesiynau craffu arferol ein Pwyllgor gyda Phrif Weinidog Cymru, Carwyn Jones AC. Pan ofynnwyd a fyddai Llywodraeth Cymru yn ceisio trefniant â'r Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd i sicrhau parhad cymeradwyaeth gyflym o gyffuriau, dywedodd y Prif Weinidog wrthym:

“I don’t see why the UK Government couldn’t come to a comprehensive agreement with the EMA in the future. I don’t see the point of having a

⁸² **FRL04 Conffederasiwn GIG Cymru**

⁸³ **FRL03 Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain**

⁸⁴ **FRL10 Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru**

⁸⁵ Cofnod y Trafodion, **paragraff 66** – 29 Ionawr 2018

⁸⁶ **FRL03 Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain**

separate UK agency doing exactly the same thing as the European Medicines Agency is doing. Surely, it makes perfect sense—and I'm sure the Member wouldn't disagree with me on this—to have the widest spread of drug approval possible, so that drugs are approved across the whole of Europe and can be used across the whole of Europe. [...] the UK Government will need to consider that in terms of its relationship in the future. But it does seem to me that this is an area that's not devolved, but does ask the question, 'Would we look to press the UK Government to get a satisfactory solution?' The answer to that is 'yes'.⁸⁷

EIN BARN NI

Rydym yn nodi'r pryderon a godwyd gyda ni y byddai colli mynediad at raglenni sy'n cefnogi cydweithredu ar ymchwil ym maes treialon clinigol ac ymchwil iechyd yn gam yn ôl i ddinasyddion y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd fel ei gilydd, ac y gallai arwain at ganlyniadau gwaeth i gleifion yn y pen draw.

Erasmus+

81. Amlygodd nifer o sefydliadau Erasmus+ fel maes lle dylai Cymru geisio cyfranogiad parhaus ar ôl Brexit. Er enghraifft, roedd UCMC o'r farn bod y cynllun Erasmus+ yn hanfodol bwysig i fyfyrwyr yr Undeb Ewropeaidd a myfyrwyr Prydain.⁸⁸ Yn ôl UCMC:

“Membership of the scheme is not linked to being a member of the European Union, but it is linked to freedom of movement. This is why certain EEA (European Economic Area) countries are able to take part in the scheme, but also why Switzerland is no longer eligible. This creates a difficult situation, where we would advocate that Wales must argue for continued access to the single market and freedom of movement.”⁸⁹

82. Nododd Prifysgolion Cymru:

“Maintaining and building on existing levels of outward mobility will be an important way of growing the skills and experience necessary for the UK to be a global trading nation. Continued participation in the Erasmus+ programme would be a pragmatic and cost-effective move

⁸⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 105 – 27 Tachwedd 2017

⁸⁸ **FRL13 Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru**

⁸⁹ Ibid.

given the expense and bureaucracy involved in setting up an alternative replacement scheme at a national level at this scale. However, continued access to Erasmus should be coupled with enhanced investment to grow other international mobility opportunities.”⁹⁰

83. Rydym yn ymwybodol bod cytundeb rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Swistir wedi cael ei sefydlu ers hynny, sy'n caniatáu i'r Swistir barhau i gymryd rhan yn Erasmus+.

84. Dywedodd Prifysgol Caerdydd wrthym, os yw'n amhosibl neu'n annymunol cynnal mynediad parhaus at Erasmus+, dylid ceisio cynllun newydd yng Nghymru neu'r Deyrnas Unedig i alluogi myfyrwyr i astudio, gweithio a gwirfoddoli dramor. Dywedodd y Brifysgol:

“Brexit offers an opportunity to create a new international outward mobility programme that could replicate and perhaps improve upon the most successful elements of the Erasmus+. This would allow universities to continue valuable collaboration with EU partners and support compulsory periods abroad for modern language students, in addition to supporting wider internationalisation of education in Wales and the UK.”⁹¹

85. Ailadroddodd Rachel Bowen (ColegauCymru) bwysigrwydd cymryd rhan yn Erasmus+ yn ystod ei chyfraniad i'r gynhadledd, ond nododd hefyd nifer o rwydweithiau eraill i Gymru barhau i ryngweithio ar ôl Brexit. Roedd y rhain yn cynnwys Cedefop, sy'n cefnogi datblygu polisiau addysgol galwedigaethol ar draws Ewrop, ac Equvet ynghylch sicrwydd ansawdd Ewropeaidd mewn systemau addysg.⁹² Dywedodd Prifysgolion Cymru hefyd y dylid parhau i gymryd rhan yng ngweithrediadau Marie Skłodowska-Curie (MSCAs), sy'n galluogi prifysgolion i gynnal ymchwilwyr o bob rhan o Ewrop.⁹³

4. 4. Barn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig

86. Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, yn ei haraith Mansion House, cydnabu'r Prif Weinidog y bydd dinasyddion y Deyrnas Unedig yn dal i fod eisiau gweithio ac astudio yng ngwledydd yr Undeb Ewropeaidd – yn union fel y bydd dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn dymuno gwneud yr un peth yma. Dywedodd hefyd fod

⁹⁰ [FRL11 Prifysgolion Cymru](#)

⁹¹ [FRL31 Prifysgol Caerdydd](#)

⁹² Cofnod y Trafodion, [paragraff 191](#) – 29 Ionawr 2018

⁹³ [FRL11 Prifysgolion Cymru](#)

Llywodraeth y Deyrnas Unedig “yn agored i drafod” sut i hwyluso’r cysylltiadau gwerthfawr hyn.⁹⁴

87. Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth lafar gydag Ysgrifennydd y Cabinet, pwysleisiodd fod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar berswadio Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch rhinwedd parhau i gymryd rhan. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“I think that there’s probably a distinction to be drawn between an ability at a Wales level to be part of European agencies of the sort that we’ve just discussed or of Horizon 2020 and Erasmus and so on, where, as far as I know, those relationships are member state relationships [...] and so our efforts have been designed to try and persuade the member state—the UK, in other words—to do everything it can to remain in those organisations.”⁹⁵

EIN BARN A’N HARGYMHELLION

Rydym o’r farn bod rôl Erasmus+ o ran gwella profiad myfyrwyr, a meithrin rhagor o gysylltiadau rhwng Cymru ac Ewrop, yn rhywbeth cadarnhaol i’r holl bartïon dan sylw. At hynny, rydym yn nodi o’r dystiolaeth y byddai llawer o randdeiliaid yn hoffi gweld mynediad at y cynllun hwn yn cael ei gadw ar ôl Brexit. Rydym hefyd yn nodi bod Erasmus+ yn agored i rai nad ydynt yn aelodau o’r Undeb Ewropeaidd, ac felly rydym yn gobeithio y gellid negodi cyfranogiad parhaus gyda rhwyddineb cymharol.

Rydym yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod cyfranogiad yn Erasmus+ a chynlluniau cydweithredu eraill ynghylch symudedd addysgol a chydweithredu rhwng myfyrwyr (fel Cedefop a’r gweithrediadau Marie Skłodowska-Curie) yn parhau ar ôl Brexit. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru amlinellu, mewn ymateb i’r adroddiad hwn, sut mae trafodaethau ar barhau i fod yn than o Erasmus+ yn datblygu.

Gallai uchelgeisiau Cymru o ran cydweithrediad rhyngwladol a symudedd myfyrwyr ymestyn ymhellach. O’r herwydd, rydym o’r farn fod y syniad o greu rhaglen symudedd allblyg newydd ac ynghylch symudedd i fyfyrwyr Cymru, yn teilyngu cael ei archwilio ymhellach.

⁹⁴ Llywodraeth EM, “**PM’s speech on our future economic partnership with the European Union**” – 2 Mawrth 2018

⁹⁵ Cofnod y Trafodion, **paragraff 153** – 5 Mawrth 2018

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio'r potensial ar gyfer rhaglen symudedd myfyrwyr rhyngwladol newydd ar ôl Brexit, ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn chwe mis.





Pennod 5:

Perthynas Cymru â rhwydweithiau a sefydliadau Ewropeaidd yn y dyfodol

Mae ein pennod olaf yn canolbwyntio ar gyfranogiad parhaus Cymru mewn rhwydweithiau Ewropeaidd ffurfiol ac anffurfiol ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd. Yn benodol, edrychwn ar y gwerth y mae'r ymgysylltiad hwn wedi ei ddarparu yn y gorffennol, ac edrych ar rai atebion posibl ar gyfer y dyfodol.

5. Perthynas Cymru â rhwydweithiau a sefydliadau Ewropeaidd yn y dyfodol

Mae ein pennod olaf yn canolbwyntio ar gyfranogiad parhaus Cymru mewn rhwydweithiau Ewropeaidd ffurfiol ac anffurfiol ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd. Yn benodol, edrychwn ar y gwerth y mae'r ymgysylltiad hwn wedi ei ddarparu yn y gorffennol, ac edrych ar rai atebion posibl ar gyfer y dyfodol.

5.1. Cyfranogi mewn rhwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol

88. Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid at bwysigrwydd parhau i gymryd rhan mewn rhwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol ar ôl Brexit. Er enghraifft, dywedodd Dr Jo Hunt a Dr Rachel Minto o Brifysgol Caerdydd wrthym:

“Welsh institutions and organisations [...] participate in a host of formal and informal networks, and have cultivated bi-lateral and multi-lateral relationships and the European, state and regional levels.”⁹⁶

89. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o'r farn y dylai Cymru barhau i ymgysylltu â phob cymdeithas, partneriaeth a rhwydwaith presennol yn yr Undeb Ewropeaidd ac yn ehangach. Dywedodd y Gymdeithas:

“Participation in these will become more important after Brexit as it will enable Wales to continue to influence key EU legislative and policy developments and access funding from some programmes.”⁹⁷

90. Tynnodd Dr Elin Royles o Brifysgol Aberystwyth sylw at y manteision i Gymru drwy fod yn aelod o rwydweithiau Ewropeaidd o ran rhannu arferion gorau, dysgu a chynhyrchu cyfleoedd i gymryd rhan mewn prosiectau a chael mynediad at gyllid.⁹⁸

⁹⁶ **FRL21 Dr Rachel Minto a Dr Jo Hunt**

⁹⁷ **FRL17 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

⁹⁸ **FRL26 Dr Elin Royles**

Buddion i'r gymdeithas sifil

91. Tynnodd Dr Rachel Minto a Dr Jo Hunt sylw at fanteision mynediad at amrywiaeth eang o rwydweithiau Ewropeaidd amrywiol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a dysgu am bolisïau. Dywedasant wrthym:

“Networking also takes place beyond the institutional architecture of the EU and also involves non-state actors. Welsh civil society organisations are active players on the EU’s civil society landscape. Within the bounds of time and resource constraints, Welsh civil society organisations participate within a range of pan-European networks and advocacy coalitions. This participation exposes Welsh civil society organisations to a range of different organisations from across Europe. Significant advantage is derived from this access, as Welsh organisations can build partnerships with regional and national counterparts, exchange information and examples of best practice, develop policy and undertake advocacy activity. Furthermore, Welsh organisations can benefit from the solidarity of trans-national advocacy networks.”⁹⁹

92. Roedd Mudiad Meithrin o’r un farn yn ei gyflwyniad, a amlygodd rôl aelodaeth Cymru o’r Undeb Ewropeaidd wrth feithrin dysgu polisi ac arferion gorau.¹⁰⁰

93. Yn yr un modd, tynnodd y WCVA sylw at fanteision ymgysylltiad Ewropeaidd ar gyfer cymdeithas sifil:

“The UK Government needs to ensure that civil society’s European connections and networks are underpinned by the right support mechanisms and investment if they are serious about no regression and addressing societal challenges in an increasingly interconnected and uncertain world. Fundamentally, civil society is an exporter of participative democracy. This extends from communities to the global stage, where citizens can fully participate in and influence decisions that affect the world around them. Brexit must not diminish our European engagement and connections.”¹⁰¹

⁹⁹ **FRL26 Dr Elin Royles**

¹⁰⁰ **FRL28 Mudiad Meithrin**

¹⁰¹ **FRL08 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**

Parhau i ymwneud â rhwydweithiau

94. Nododd nifer o randdeiliaid yn ein cynhadledd ar 29 Ionawr, gan gynnwys Catriona Williams o Blant yng Nghymru, Natasha Davies o Chwarae Teg a Rhea Stevens o'r Sefydliad Materion Cymreig, fod perthynas Cymru ag Ewrop yn bodoli drwy nifer o rwydweithiau anffurfiol, yn ogystal â rhai mwy ffurfiol. Er enghraifft, dywedodd Natasha Davies wrthym:

"[...] there's a few networks that Chwarae Teg are engaged with, some on a more formal basis. A few examples would be engagement with the European Women's Lobby; there's a gender wage watchers network; JUMP; and EPAL, which is the European platform for adult learning and education. We engage with these networks in quite a lot of different ways, but I wanted to draw on the point that was made earlier on that a lot of these are relatively informal networks and relationships that we've been able to build up, and as an organisation, we've largely been able to build those up thanks to the fact that there's been a transnational element to the work that we've done through our European-funded projects."¹⁰²

95. Yn ôl Natasha Davies, dylai'r gwaith o feithrin a chryfhau'r cysylltiadau hynny fod yn flaenoriaeth.¹⁰³

96. Yn eu cyflwyniad ysgrifenedig, nododd Dr Rachel Minto a Dr Jo Hunt amrywiaeth o rwydweithiau sy'n agored ac wedi eu teilwra i aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd a'r rhai nad ydynt yn aelod-wladwriaethau, er enghraifft:

"There are a diverse range of more formal European networks or associations that are open and tailored to both EU and non-EU member states, e.g. Conference of Regions with Legislative Assemblies; Conference of Peripheral and Maritime Regions; European Regions for Research and Innovation; Network of Regional Governments for Sustainable Development; Cine Regions (a network of regional film funds) and the European Network of National Civil Society."¹⁰⁴

97. Dywedodd Lowri Gwilym o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym am bwysigrwydd ymgysylltu â rhwydweithiau lle nad oes angen bod yn aelod o'r

¹⁰² Cofnod y Trafodion, **paragraff 172** – 29 Ionawr

¹⁰³ Ibid.

¹⁰⁴ **FRL21 Dr Rachel Minto a Dr Jo Hunt**

Undeb Ewropeaidd, fel Cyngor Bwrdeistrefi a Rhanbarthau Ewropeaidd (CEMR).¹⁰⁵ Yn ogystal â'r CEMR, yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad, nododd y Gymdeithas y cyrff a ganlyn: Cynhadledd y Rhanbarthau Ymylol a Morwrol (CPMR), y Cyngor Ewropeaidd, Eurocities, a'r Rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig fel sefydliadau ar gyfer cyfranogiad parhaus.¹⁰⁶

98. Cyfeiriodd Eluned Haf o Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru hefyd at y CPMR, a dywedodd wrthym fod "**Datganiad Caerdydd**" gan y CPMR yn ddiweddar yn cynnwys argymhelliad i'r holl rwydweithiau y maent yn eu cynrychioli gynnwys partneriaid o'r Deyrnas Unedig a Chymru fel rhan o'u rhwydweithiau yn y dyfodol.¹⁰⁷

99. Croesawodd Unite Cymru hefyd Ddatganiad Caerdydd.¹⁰⁸ Llofnodwyd y datganiad ym mis Tachwedd 2017 gan gynrychiolwyr gwleidyddol o 20 rhanbarth o ardaloedd Môr y Gogledd, Cefnfor yr Iwerydd a Môr Udd, a galwodd am gydweithredu rhwng rhanbarthau Ewrop ar ôl Brexit i fynd i'r afael â'i effaith ar: bysgodfeydd, ynni adnewyddadwy morol a gwynt ar y môr, cysylltedd ar draws Porthladdoedd yr Iwerydd a Môr y Gogledd, ymchwil wyddonol a thiriogaethau morwrol.

Barn Llywodraeth Cymru

100. Yn ei dystiolaeth i ni, tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at y rôl bwysig y mae rhwydweithiau – yn rhai ffurfiol ac anffurfiol – wedi ei chwarae ym mherthynas Cymru ag Ewrop. Dywedodd wrthym:

“One of the things that I’ve been really struck by—and I sometimes say that I think we’re humbled by it, really—is that there are other parts of the European Union, regions of the sort that Suzy Davies was referring to earlier, where our leaving the European Union is going to do them harm. There’s no doubt about it. All the analysis that they’ve done sectorally shows that, without the trading relationship they currently have, their economies are at risk, and yet when you go to those places, they are still incredibly willing to keep the door open to us, to go on being part of things that we have shared with them in the past. If you’ve had a chance at all to look at the Cardiff declaration, which is the declaration made by the Conference of Peripheral Maritime Regions—

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion, **paragraff 168** – 29 Ionawr 2018

¹⁰⁶ **FRL17 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

¹⁰⁷ Cofnod y Trafodion, **paragraff 199** – 29 Ionawr 2018

¹⁰⁸ **Unite Cymru**

one of the big networks in Europe—it explicitly says that other parts of Europe should look for ways in which the door can be kept open to Wales in participating in these really important European networks the other side of Brexit.

So, that’s where our role really comes to the fore—not so much in the big institutional relationships, which really are a member state responsibility, but at those other things where we’ve been, I think, very willing and positive partners but where we’ve gained so much in return.”¹⁰⁹

EIN BARN A’N HARGYMHELLION

Rydym yn cydnabod rôl unigryw a gwerthfawr ymwneud â rhwydweithiau Ewropeaidd o ran dysgu a chydweithio ar bolisiau ar draws pob sector. Rydym yn falch o effaith gadarnhaol, i’r ddau gyfeiriad, ymgysylltiad o’r fath yn y gorffennol. Rydym yn gobeithio gweld y cysylltiadau hyn yn tyfu o nerth i nerth yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod cyfranogiad mewn llawer o’r rhwydweithiau hyn yn y gorffennol wedi ei seilio’n uniongyrchol ar y ffaith bod prosiectau a rhaglenni a gyllidir gan yr Undeb Ewropeaidd ar gael, ac o ganlyniad i Brexit, y gallai Cymru fod â llai o rôl yn llawer o’r rhwydweithiau hyn yn y dyfodol. Rydym o’r farn y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru, cymdeithas sifil ac eraill gymryd camau i liniaru’r risgiau hyn o leihau’r rôl lle bo modd.

Rydym yn nodi’r rôl bwysig a neilltuwyd yn natganiad CPMR Caerdydd, a chan Lywodraeth Cymru, i ddatblygu perthynas nid yn unig drwy rwydweithiau ond yn uniongyrchol â gwledydd, rhanbarthau a dinasoedd unigol yn Ewrop. Drwy ein gwaith ar y trafodaethau hyd yn hyn, cawsom drafodaethau adeiladol gyda chynrychiolwyr llawer o ranbarthau Ewrop sy’n rhannu pryderon tebyg i Gymru. Rydym yn cydnabod y rôl bwysig y bydd y cysylltiadau hyn yn ei chwarae yn y dyfodol, a byddwn yn dychwelyd i ystyried y mater hwn ymhellach yn Rhan Dau o’n hadroddiad.

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mapio’r holl rwydweithiau yn yr Undeb Ewropeaidd sy’n bodoli’n barod, ar draws pob sector, lle mae sefydliadau Cymru yn chwarae rhan. Dylai canlyniadau’r ymarfer mapio hwn gael eu cyhoeddi erbyn mis Mehefin 2018.

¹⁰⁹ Cofnod y Trafodion, **paragraffau 155 a 156** – 5 Mawrth 2018

Argymhelliad 13. Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau'r ymarfer mapio hwn, dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid ar bwysigrwydd y rhwydweithiau gwahanol hyn, eu buddion i Gymru a pha rwydweithiau y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer mynediad ar ôl Brexit. Dylid cwblhau'r ymgynghoriad erbyn hydref 2018.

Argymhelliad 14. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, amlinellu cynlluniau ar gyfer buddsoddi yng nghyfranogiad Cymru yn y rhwydweithiau hyn, ac ystyried y cyfleoedd a'r goblygiadau cyllido i gymdeithas ddinesig Cymru er mwyn parhau i gydweithio â phartneriaid mewn rhwydweithiau allweddol.

Y berthynas ag Iwerddon

101. Roedd y berthynas bwysig rhwng Cymru ac Iwerddon yn thema allweddol yn dystiolaeth ysgrifenedig. Cyfeiriodd rhanddeiliaid at y berthynas fasnachu bwysig, yn enwedig mewn cynhyrchion amaethyddol, rhwng Iwerddon a'r Deyrnas Unedig.¹¹⁰

102. Amlygodd nifer o randdeiliaid, gan gynnwys RSPCA Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac Unite, yr angen i osgoi ffin galed rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon.¹¹¹ Tynnodd Sefydliad y Peirianwyr Sifil sylw at bwysigrwydd gweithio gyda Gweriniaeth Iwerddon i sicrhau na chaiff yr holl fasnach ei gyfyngu i'r llwybr drwy Ogledd Iwerddon ar ôl Brexit.¹¹²

103. Amlygodd Cyngor Celfyddydau Cymru rôl cyllid IVA Interreg Iwerddon-Cymru ar gyfer cefnogi'r sector creadigol a diwylliannol yng Nghymru.¹¹³

104. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y dylai Cymru geisio mynediad parhaus at yr arian sy'n ymwneud â Chydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (gan gyfeirio at gysylltiadau trawsffiniol rhwng Cymru ac Iwerddon yn arbennig) ar ôl Brexit.¹¹⁴

¹¹⁰ [FRL30 RSPCA Cymru](#); [FRL27 Cymdeithas Milfeddygon Prydain](#)

¹¹¹ [FRL30 RSPCA Cymru](#); [FRL08 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#); [FRL12 Unite Cymru](#)

¹¹² [FRL01 Sefydliad y Peirianwyr Sifil](#)

¹¹³ [FRL32 Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru](#)

¹¹⁴ [FRL17 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#)

Barn Llywodraeth Cymru

105. Amlygodd Papur Gwyn ar y cyd Llywodraeth Cymru â Phlaid Cymru y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon:

“Mae gan Gymru berthynas gydweithio neilltuol o agos gyda Gweriniaeth Iwerddon, ein cymydog dros y môr, drwy’r Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd. Rydym yn dymuno parhau â’r cydweithio hwn ar ôl i’r DU ymadael â’r UE. Mae’n bosib y bydd cydweithredu o’r fath hyd yn oed yn bwysicach pan fydd y DU yn ymadael â’r UE, ac rydym wedi ymrwymo’n arbennig i gryfhau’r berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon.”¹¹⁵

106. Yn ystod tystiolaeth lafar, ailadroddodd Ysgrifennydd y Cabinet ei farn y dylai cydweithrediad rhanbarthol barhau ar ôl Brexit. Soniodd wrthym am ei drafodaethau gyda chymheiriaid yn Iwerddon:

“[...] with the political parties that I met—and I met Sinn Féin, I met the SDLP and I met Unionist politicians—there was a real appetite there too for ways in which we might be able to work with them post Brexit to form some alliances between Scotland, Wales and Northern Ireland to be able to continue to participate in some of these regional level arrangements that otherwise we might not be able to have access to.”¹¹⁶

EIN BARN A’N HARGYMHELLION

Rydym wedi tynnu sylw’n barod at bwysigrwydd perthynas Cymru â’n cymydog agosaf yn yr Undeb Ewropeaidd, sef Iwerddon. Yn ystod ein hymchwiliad i oblygiadau Brexit ar gyfer porthladdoedd Cymru, fe wnaethom bwysleisio’r berthynas fasnachu bwysig: mae 70 y cant o nwyddau cludo Iwerddon yn mynd drwy borthladdoedd Cymru.

Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu’r berthynas ddwyochrog bwysig rhwng Cymru, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon i sicrhau ei bod yn parhau i gryfhau a thyfu ar ôl Brexit.

¹¹⁵ Llywodraeth Cymru, “[Diogelu Dyfodol Cymru](#)” – 23 Ionawr 2017

¹¹⁶ Cofnod y Trafodion, [paragraff 158](#) – 5 Mawrth 2018

Argymhelliad 15. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, yn nodi'r cyflwr terfynol y mae'n ei ragweld o ran perthynas Cymru â rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd yn y dyfodol, a'i chyfranogiad ynddynt (yn enwedig y rhai sy'n cynnwys Iwerddon), ar ôl Brexit.

5. 2. Y berthynas â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol

107. Fel yr amlinellwyd uchod yn yr adran ar barhau i fod yn rhan o asiantaethau'r Undeb Ewropeaidd, hyd yn oed os na chaiff perthynas ffurfiol ei sicrhau ar ôl Brexit, bydd modd i sawl perthynas anffurfiol barhau. Dywedodd nifer o randdeiliaid wrthym y bydd system wleidyddol yr Undeb Ewropeaidd yn parhau i fod yn bwysig i fudiadau a sefydliadau Cymru ar ôl Brexit. Er enghraifft, dywed Dr Jo Hunt a Dr Rachel Minto o Brifysgol Caerdydd y bydd yn:

“remain a rich site for information exchange, policy learning, partnership building and collaborative working with local, regional and state-level counterparts.”¹¹⁷

108. Fodd bynnag, yn ôl Dr Elin Royles o Brifysgol Aberystwyth, ar hyn o bryd mae'n anodd asesu manylion goblygiadau perthynas y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol i Gymru:

“The lack of clarity regarding the exact nature of the UK's future relationship with the European Union continues with preparations taking place for the UK to operate as a 'third country'. This requires developing the capacity to influence EU Member States and EU institutions in the absence of automatic and regularised access associated with EU membership.”¹¹⁸

109. Dywedodd nifer o randdeiliaid, fel NFU Cymru, eu bod yn gwerthfawrogi'r berthynas sydd ganddynt â'r Undeb Ewropeaidd a'i sefydliadau. Dywedodd NFU Cymru:

“Through its office in Brussels, the Union has had a presence in Brussels since 1972, which has allowed us to build up an extensive network of colleagues within the institutions and amongst other stakeholder organisations. We fully intend to do all that we can to preserve and continue with those relationships, and ensure we are representing

¹¹⁷ **FRL21 Dr Rachel Minto a Dr Jo Hunt**

¹¹⁸ **FRL26 Dr Elin Royles**

farmer and growers on the numerous EU issues that might impact on their businesses over the coming years.”¹¹⁹

110. At hynny, dywedodd NFU Cymru wrthym ei fod yn bwriadu parhau i ddilyn datblygiadau polisi a gymerir gan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd:

“Understanding the challenges faced by our European neighbours, and the policy responses being developed to address these challenges will remain vital in terms of informing our own lobbying efforts.”¹²⁰

111. Yn achos Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, elfen allweddol o berthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol yw'r angen am fath gwahanol o bresenoldeb gan Gymru ym Mrwsel. Mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i ddechrau deialog gyda'i holl bartneriaid allweddol i ystyried pa fath o bresenoldeb y bydd yn rhaid i Gymru ei chael ym Mrwsel ar ôl Brexit, sy'n adlewyrchu cyd-destun cyfredol datganoli Cymru, gan gynnwys dyfodiad pedwar rhanbarth datblygu economaidd, er mwyn gwneud y gorau o bob cyfle.¹²¹

Pwyllgor y Rhanbarthau

112. Amlygwyd manteision aelodaeth o Bwyllgor y Rhanbarthau gan Dr Rachel Minto a Dr Jo Hunt. Dywedasant wrthym:

“In addition to the formal networks within the Committee of the Regions (for example, in work undertaken around particular legislative proposals), representatives from local and regional authorities build strong informal networks. These specialised networks (both formal and informal) enable the sharing of knowledge, the exchange of best practice and policy learning. This policy learning has significant potential to inform policymaking at a regional and local level. This potential benefit risks being overlooked in discussions around Brexit.”¹²²

113. Yn yr un modd, nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod awdurdodau lleol Cymru yn cefnogi perthynas rhwng Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig a Phwyllgor Rhanbarthau'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol, yn debyg i batrwm y dewisiadau a gyflwynwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA):

¹¹⁹ **FRL06 NFU Cymru**

¹²⁰ **ibid**

¹²¹ **FRL17 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

¹²² **FRL21 Dr Rachel Minto a Dr Jo Hunt**

“The (LGA) paper advocates a North West Europe Forum involving Local Government representatives from the UK, EFTA and the EU Committee of the Regions, underpinned by a North West Europe macro-regional strategy. Similar arrangements exist for other areas outside of the EU. They provide opportunities for non- EU countries to continue to benefit from some funding programmes (European Territorial Cooperation in particular), networking initiatives and other forms of cooperation.”¹²³

EIN BARN A’N HARGYMHELLION

Rydym yn cydnabod y rôl bwysig a buddiol y mae aelodaeth Cymru o Bwyllgor y Rhanbarthau wedi ei chwarae yn y gorffennol. Rydym hefyd yn nodi’r galwadau ar i Gymru barhau i gynnal perthynas â’r Pwyllgor ar ôl Brexit.

Argymhelliad 16. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei ymateb i’r adroddiad hwn pa drafodaethau y mae wedi eu cael ar berthynas Cymru â Phwyllgor y Rhanbarthau yn y dyfodol ar ôl Brexit, a sut mae’r trafodaethau hynny’n mynd rhagddynt.

Ffurfiâu eraill ar berthynas ddwyochrog rhwng Cymru a’r Undeb Ewropeaidd

114. Roedd nifer o dystion yn edrych ymlaen at berthynas Cymru a’r Deyrnas Unedig â’r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol, gan bwysleisio y byddai’r cysylltiadau hyn yn dal i fod yn bwysig. Er enghraifft, dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru a Dr Victoria Jenkins y bydd cydweithrediad â sefydliadau’r Undeb Ewropeaidd ar faterion amgylcheddol traws-wladol yn bwysig.¹²⁴ Dadleuodd Dr Victoria Jenkins hefyd y dylai’r Deyrnas Unedig archwilio parodrydd sefydliadau’r Undeb Ewropeaidd i barhau â’u perthynas â chyrrff anllywodraethol yn y Deyrnas Unedig yn ogystal â chyrrff y llywodraeth.¹²⁵

115. Tynnodd Natasha Davies o Chwarae Teg sylw at rôl aelodaeth o’r Undeb Ewropeaidd o ran diogelu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol, a dywedodd wrthym na ddylid cymryd cam yn ôl o ran yr hawliau hyn ar ôl Brexit.¹²⁶ Yn yr un modd, dywedodd Stonewall Cymru wrthym fod cyfraith yr Undeb Ewropeaidd wedi rhoi hawliau gwarantedig i ddinasyddion Cymru yn flaenorol, ac

¹²³ [FRL17 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#)

¹²⁴ [FRL18 Cyswllt Amgylchedd Cymru](#), [FRL20 Dr Victoria Jenkins](#)

¹²⁵ [FRL20 Dr Victoria Jenkins](#)

¹²⁶ Cofnod y Trafodion, [paragraff 53](#) – 29 Ionawr 2018

y gallai unrhyw ddirywiad yn yr hawliau hynny ar ôl Brexit fod yn berygl posibl i bobl LHDT ac eraill yn y dyfodol.¹²⁷

116. Yn ystod y gynhadledd rhanddeiliaid, dywedodd Alan Davies o Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) wrthym am her sefydlu fframweithiau a sefydliadau cyfansoddiadol newydd ar lefel Ewropeaidd ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.¹²⁸ Dywedodd hefyd y dylai cysylltiadau'r Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd gael eu sefydlu yn y dyfodol mewn modd sy'n "parchu datganoli'n llwyr" ac sy'n creu atebion "drwy gyd-drafod".¹²⁹

117. Nododd Dr Elin Royles o Brifysgol Aberystwyth ei blaenoriaethau ar gyfer y berthynas yn y dyfodol yn ei thystiolaeth ysgrifenedig. Dywedodd Dr Royles wrthym ei bod hi'n hanfodol bod mecanweithiau i alluogi Llywodraeth Cymru a gweinyddiaethau datganoledig eraill ymgysylltu â chysylltiadau diplomyddol ffurfiol y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a'i sefydliadau ar ôl Brexit yn debyg iawn i'r trefniadau presennol, gydag ymdrechion i'w gwella ymhellach. Ymhlith yr argymhellion eraill, dadleuodd Dr Royles y dylai unrhyw statws ac achrediad diplomyddol a roddir i swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig fel rhan o statws "trydedd wlad", barhau i gael ei ymestyn i swyddogion Llywodraeth Cymru. Ar ben hynny, dywedodd fod yr achrediad a'r trefniadau ffurfiol ar gyfer y tair gweinyddiaeth ddatganoledig fel rhan o statws "trydedd wlad" y Deyrnas Unedig yr un fath ym mhob achos.¹³⁰

EIN BARN A'N HARGYMHELLION

Ni ddylai Brexit olygu troi cefn ar draddodiad balch Cymru fel cenedl allblyg sy'n ymgysylltu'n rhyngwladol, ac rydym yn nodi y bydd perthynas Cymru gydag Ewrop yn parhau i fod yn bwysig ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'n bwysig bod y berthynas yn y dyfodol yn amddiffyn ac yn diogelu safonau cydraddoldeb a hawliau dynol. Rydym yn cefnogi parhad yr hawliau sydd yn y Siarter Hawliau Sylfaenol yn y Deyrnas Unedig ar ôl Brexit ac mewn unrhyw berthynas fasnachol yn y dyfodol rhwng y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a phartneriaid eraill yn y dyfodol.

¹²⁷ **FRL24 Stonewall Cymru**

¹²⁸ Cofnod y Trafodion, **paragraff 205** – 29 Ionawr 2018

¹²⁹ Cofnod y Trafodion, **paragraff 206** – 29 Ionawr 2018

¹³⁰ **FRL26 Dr Elin Royles**

Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru archwilio parodrwydd yr Undeb Ewropeaidd a'i sefydliadau i ymgysylltu â sefydliadau'r Llywodraeth a sefydliadau anllywodraethol yng Nghymru ar ôl Brexit. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ynghylch hynny erbyn mis Rhagfyr 2018.

Y mae hefyd yn hollbwysig sicrhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn cadw statws achrediad a diplomyddol cyfatebol â swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig (beth bynnag fydd y trefniadau hynny) fel rhan o unrhyw gytundeb ar berthynas y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol.

Argymhelliad 17. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio'r cyfleoedd i sefydliadau llywodraethol ac anllywodraethol yng Nghymru ymgysylltu'n effeithiol â'r Undeb Ewropeaidd a'i sefydliadau ar ôl Brexit.

Argymhelliad 18. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru alw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddiogelu'r hawliau dynol a safonau cydraddoldeb y mae dinasyddion Cymru wedi elwa arnynt drwy fod yn ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd.

Atodiad A - Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. **Mae trawsgriadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar** ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a sefydliad
29 Ionawr 2018	Dr Rachel Bowen, ColegauCymru
	Beth Button, Prifysgolion Cymru
	Ben Cottam, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
	Alan Davies, Undeb Amaethwyr Cymru
	Natasha Davies, Chwarae Teg
	Lisa Edwards, Undeb Prifysgolion a Cholegau
	Jim Evans, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru
	Zélie Flach, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
	Ifan Glyn, Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr Cymru
	Lowri Gwilym, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
	Eluned Haf, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
	Dr Jo Hunt, Prifysgol Caerdydd
	Keith Jones, Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru
	Tobias Lock, Prifysgol Caeredin
	Nesta Lloyd-Jones, Confederasiwn GIG Cymru
	Dr Rachel Minton, Prifysgol Caerdydd
	Dr Stephen Monaghan, BMA Cymru
	Dr Tim Peppin, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
	Nick Perdikis, Prifysgol Aberystwyth
	Glyn Roberts, Undeb Amaethwyr Cymru

	<p>Jim Rollo, Prifysgol Sussex</p> <p>Rhea Stevens, Sefydliad Materion Cymreig</p> <p>Huw Rhys Thomas, NFU Cymru</p> <p>Lisa Turnbull, Coleg Nyrsio Brenhinol</p> <p>Mary van den Heuvel, Undeb Addysg Genedlaethol Cymru</p> <p>Carol Wardman, Cytûn</p> <p>Catriona Williams, Plant yng Nghymru</p>
<p>5 Mawrth 2018</p>	<p>Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid</p>
	<p>Robert Parry, Llywodraeth Cymru</p> <p>Rhys Davies, Llywodraeth Cymru</p>

Atodiad B – Rhestr o’r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a’r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgor. Mae’r holl **ymatebion i’r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol** ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Sefydliad	Cyfeirnod
Sefydliad y Peirianwyr Sifil	<u>FRL01</u>
Cyngor y Gweithlu Addysg	<u>FRL02</u>
Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain	<u>FRL03</u>
Cyddfederasiwn GIG Cymru	<u>FRL04</u>
Y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol	<u>FRL05</u>
NFU Cymru	<u>FRL06</u>
Undeb Addysg Genedlaethol Cymru	<u>FRL07</u>
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	<u>FRL08</u>
Hybu Cig Cymru	<u>FRL09</u>
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru	<u>FRL10</u>
Prifysgolion Cymru	<u>FRL11</u>
Uno’r Undeb Cymru	<u>FRL12</u>
Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru	<u>FRL13</u>
Dr Luivine Petetin a Dr Annegret Engel	<u>FRL14</u>
Celfyddydau Rhyngwladol Cymru	<u>FRL15</u>
Cymru Dros Ewrop	<u>FRL16</u>
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	<u>FRL17</u>
Cyswllt Amgylchedd Cymru	<u>FRL18</u>
Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru	<u>FRL19</u>
Dr Victoria Jenkins	<u>FRL20</u>
Dr Rachel Minto a Dr Jo Hunt	<u>FRL21</u>

Y Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Meddal Prydain	<u>FRL22</u>
Y Sefydliad Materion Cymreig	<u>FRL23</u>
Stonewall Cymru	<u>FRL24</u>
Cymdeithas Tirfeddianwyr Cefn Gwlad Cymru	<u>FRL25</u>
Dr Elin Royles	<u>FRL26</u>
Cymdeithas Milfeddygon Prydain	<u>FRL27</u>
Mudiad Meithrin	<u>FRL28</u>
Maes Awyr Caerdydd	<u>FRL29</u>
RSPCA Cymru	<u>FRL30</u>
Prifysgol Caerdydd	<u>FRL31</u>
Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru	<u>FRL32</u>
UNSAIN Cymru	<u>FRL33</u>

